

Asesiad Llesiant Gwent

Llesiant Economaidd

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Gweithgarwch economaidd a chyflogaeth.....	4
2.1 Cyfradd gweithgarwch economaidd.....	4
2.2 Cyflogaeth.....	4
2.3 Hunangyflogaeth	7
2.4 Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth	8
2.5 Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant	9
3. Incwm ac amddifadedd.....	11
3.1 Cyflog gros yr wythnos	12
3.2 Incwm gwario aelwydydd	13
3.3 Aelwydydd mewn gwaith ac aelwydydd heb waith	14
3.4 Diweithdra	16
3.5 Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws.....	17
3.6 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)	18
3.7 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau.....	24
3.8 Newidiadau i fudd-daliadau lles	25
3.9 Pobl Economaidd Anweithgar.....	27
3.10 Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)	29
3.11 Banciau bwyd	29
3.12 Sicrwydd bwyd	31
4. Gofal plant.....	33
5. Busnes.....	35
5.1 Demograffeg busnesau	35
5.2 Manwerthu a Hamdden	38
5.3 Twristiaeth.....	39
5.4 Cryfderau cymunedau ac atyniadau i dwristiaid.....	41
5.5 Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.....	42
5.6 Safleoedd Datblygu Strategol	43
5.7 Ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio.....	44
6. Patrymau gwaith.....	46
6.1 Cymudo.....	46
6.2 Sut rydym yn cymudo.....	47

6.3 Effaith pandemig COVID-19 ar fan gwaith	48
6.4 Effaith technoleg arloesol ar y gweithlu.....	52
6.5 Mynediad i'r rhyngrwyd.....	53
7. Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym	56
8. Tueddiadau a heriau'r dyfodol.....	60
8.1 Adfer ar ôl COVID-19	61
8.2 Ymadael â'r UE	65
8.3 Y cyfnod pontio o'r UE ar gyfer Gwent	67
Tabl o Ffigurau	70
Cyfeiriadau:	72

1. Cyflwyniad

Mae'r adran hon o'r asesiad yn dweud wrthym am lesiant economaidd Gwent – y mathau o fusnesau yn yr ardal, sut mae pobl yn gwneud arian, ble maent yn gweithio, faint o arian y maent yn ei ennill, tueddiadau cyflogaeth, gweithgarwch/anweithgarwch economaidd, diweithdra a bod heb waith.

Mae gan Went economi amrywiol; o weithgynhyrchwyr uwchdechnoleg sy'n allforio cynhyrchion i bob cwr o'r byd, i fusnesau sy'n darparu'r gwasanaethau pob dydd allweddol y mae ein cymunedau'n dibynnu arnynt, fel bwyd a gofal. Dylai'r cymysgedd hwn alluogi Gwent i fanteisio ar y sectorau sy'n datblygu a fydd yn chwarae rhan gynyddol bwysig yn economi carbon isel y dyfodol a fydd yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd.

Ar lefel leol, mae gan bob un o'r pum ardal awdurdod lleol ei chryfderau economaidd ei hun, megis yr amgylchedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol sy'n cyfrannu at lesiant economaidd pobl sy'n byw ac yn gweithio yno.

Wrth i boblogaeth Gwent heneiddio, bydd angen i ni wneud yn siŵr bod pobl yn parhau i fod yn iach ac yn egniol er mwyn iddynt allu cyfrannu at eu heconomi leol. Er gwaethaf hyn, gwyddom y bydd galw cynyddol am rai gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn sgil datblygiadau technolegol, mae'n bosibl y bydd anghenion gofal cymdeithasol yn newid, a fydd yn golygu y bydd angen gweithlu sydd â sgiliau newydd a gwahanol.

Gall cyfrannu at yr economi leol a gwella sgiliau, gan gynnwys y rhai y bydd eu hangen yn y dyfodol, gael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant. Gwyddom fod pobl yn ein cymunedau sy'n wynebu tlodi, gan gynnwys tlodi mewn gwaith, a allai effeithio ar bob agwedd ar eu bywydau a'u llesiant, fwy neu lai. Mae cael amrywiaeth o waith da yn ein cymunedau hefyd yn helpu i'w gwneud yn lleoedd mwy cydlynus i fyw, gweithio ac astudio ynddynt.

Byddai cadwyni cyflenwi byrrach a mwy lleol yn golygu y byddai Gwent y dyfodol mewn sefyllfa well i wrthsefyll amrywiadau mewn marchnadoedd byd-eang a newid yn yr hinsawdd. Byddai cynhyrchu mwy o ynni yn lleol a phrosesau mwy effeithlon yn golygu y byddai busnesau'n cael eu diogelu rhag cynnydd mewn costau ynni cyfanwerthol.

Er bod y dangosyddion yn y bennod hon yn cynnig darlun o lesiant economaidd ledled Gwent, mae hefyd yn ystyried, cyn belled ag y bo modd, y ffaith bod y DU wedi ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ac effaith sylweddol pandemig COVID-19 ar yr economi leol ledled Cymru.

Fel y bydd y bennod hon yn dangos, mae nifer y swyddi a gafodd eu rhoi ar ffyrlo a'r lleihad mewn twristiaeth a gweithgarwch manwerthu yn ystod cyfyngiadau COVID-19 yn ystod 2020-21 wedi arwain at oblygiadau sylweddol i bobl o bob oed. Er gwaethaf hyn, mae Gwent mewn sefyllfa gref i ganolbwyntio ar adfer economaidd a ffyniant hirdymor yn y dyfodol, ond mae'n bosibl na fyddwn yn gwybod beth fydd canlyniadau hirdymor y pandemig am beth amser.


2. Gweithgarwch economaidd a chyflogaeth

Mae gweithgarwch economaidd yn seiliedig ar ddwy elfen – pobl economaidd weithgar, a phobl economaidd anweithgar. Y bobl economaidd weithgar yw'r rhai sy'n gallu gweithio, p'un a oes ganddynt swydd ai peidio. Y bobl economaidd anweithgar yw'r rhai na allant weithio, megis pobl â salwch hirdymor, pobl sydd wedi ymddeol, myfyrwyr amser llawn, neu bobl sy'n gofalu am deulu neu ffrindiau.

Mae sylfaen gyflogaeth amrywiol Gwent yn golygu bod amrywiaeth o gyfleoedd gwaith mewn gwahanol sectorau lle mae angen gwahanol sgiliau. Mae economïau amrywiol yn fwy tebygol o allu gwrthsefyll digwyddiadau economaidd annisgwyl. Hefyd, mae'r rhanbarth mewn sefyllfa dda i gyfrannu at sectorau y nodwyd eu bod yn bwysig ar gyfer ffyniant yn y dyfodol, gan gynnig swyddi da ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

2.1 Cyfradd gweithgarwch economaidd


Canran y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n economaidd weithgar ledled Gwent yw 78.0%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 75.7%. Mae hyn yn amrywio o 74.0% ym Mlaenau Gwent i 83.4% yn Sir Fynwy.



Ffigur 1: Cyfradd gweithgarwch economaidd – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion-Rhag 2020.¹


2.2 Cyflogaeth

Caiff y gyfradd cyflogaeth ei mesur ar sail nifer neu ganran y bobl rhwng 16 a 64 oed a oedd yn gwneud awr neu fwy o waith am dâl yr wythnos a'r rhai a oedd mewn swydd ond i ffwrdd o'r gwaith dros dro (e.e. oherwydd salwch). Mae hyn yn cynnwys cyflogaeth a phobl hunangyflogedig.² Y gyfradd cyflogaeth yng Ngwent yw 74.5%, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, sef 72.8%. Mae hyn yn amrywio o 70.8% ym Mlaenau Gwent i 80.0% yn Sir Fynwy.



Ffigur 2: Cyfradd cyflogaeth – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion-Rhag 2020.³

Mae Ffigur 2 yn dangos y gyfradd cyflogaeth yn ôl y grwpiau oedran bras er mwyn canfod yr amrywiad sy'n bodoli o fewn awdurdod lleol a rhwng awdurdodau lleol. Mae cyfraddau gweithgarwch economaidd a chyflogaeth Gwent yn awgrymu bod yr ardal yn ei chyfanrwydd yn perfformio'n well na chyfartaledd Cymru, ond mae Ffigurau 1 a 2 yn dangos bod angen mynd i'r afael â'r cyfraddau ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen, sy'n is na'r cyfartaledd.



Ffigur 3: Canran y gyflogaeth amser llawn ymhlith pobl rhwng 16 a 64 oed yn ôl grŵp oedran bras, Ion – Rhag 2020.⁴


Nid oes data wedi cael eu cyhoeddi ar gyfer y gyfradd cyflogaeth amser llawn ymhlith pobl ifanc rhwng 16 a 19 oed ym Mlaenau Gwent am fod y sampl yn fach a fyddai'n golygu y byddai'n arwain at gasgliadau annibynadwy ar lefel y boblogaeth. Felly, nid oes modd cyfansymio ffigur ar gyfer Gwent yn y grŵp oedran hwn.

Lle mae data sampl ar gael ar gyfer y grŵp oedran 16-19 oed, mae'r gyfradd cyflogaeth yn sylweddol is na'r grwpiau oedran eraill ar y cyfan. Er hynny, mae hyn ddwywaith yn uwch na'r gyfradd yn Sir Fynwy a Thorfaen o gymharu â Chaerffili a Chasnewydd. Mewn cyferbyniad â hynny, mae canran is o bobl ifanc rhwng 20 a 49 oed mewn gwaith cyfwerth ag amser llawn

(FTE) ym Mlaenau Gwent o gymharu â Gwent a Chymru gyfan, ond mae canran uwch o bobl 50 oed a throsodd mewn gwaith FTE, sy'n awgrymu bod mwy o bobl hŷn yn aros mewn gwaith amser llawn am fwy o amser o gymharu â Chymru ac unrhyw awdurdod lleol arall yng Ngwent.

Yn ôl Iechyd Cyhoeddus Cymru, ceir rhywfaint o dystiolaeth mai ar bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed y mae pandemig COVID-19 wedi cael yr effaith fwyaf o ran cyflogaeth. Mae'r pandemig wedi amharu ar eu haddysg, wedi atal prentisiaethau ac wedi cyfyngu ar gyfleoedd cyflogaeth yn y sectorau y cafodd cyfyngiadau COVID-19 yr effaith economaidd fwyaf arnynt.⁵ Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd bach yn nifer y bobl ifanc yng Nghymru sy'n ymuno â byd addysg o ganlyniad i'r pandemig, a allai, ynghyd â'r diffyg cyfleoedd i weithio fel staff bar, gweinyddion/gweinyddesau, cynorthwyyr manwerthu ac ati yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19, esbonio'r gyfran isel o bobl ifanc rhwng 16 a 19 oed mewn gwaith amser llawn yng Nghasnewydd, Caerffili, Blaenau Gwent a Chymru gyfan.

Nid yw cyflogaeth yn sefydlog bob amser, ac mae hynny wedi bod yn wir ledled y DU ers cyn pandemig COVID-19. Mae Ffigur 6 isod yn dangos canran y bobl mewn gwaith ar gontract dim oriau yng Nghymru, Lloegr a'r DU o'r cyfnod rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2013 tan y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021.



Ffigur 3 Canran y bobl mewn gwaith ar gontract dim oriau⁶


%age	Canran
Oct-Dec	Hyd-Rhag
Apr-Jun	Ebr-Meh
Jan-Mar	Ion-Maw
Jul-Sept	Gorff-Medi
UK	Y DU
England	Lloegr
Wales	Cymru

Gwelwyd tuedd at i fyny yng nghanran y bobl a oedd ar gontractau dim oriau yng Nghymru, o 2.2% ar ddiwedd 2013 i 3.4%, neu 50,000 o bobl, ar ddiwedd 2019. Ar ôl hynny, trodd y duedd at i lawr nes cyrraedd 2.0%, neu 29,000 o bobl, yn y cyfnod rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, sef y lefel isaf ers dros saith mlynedd. Mae hyn yn groes i'r duedd barhaus at

i fyny a welwyd dros yr un cyfnod yn Lloegr, a gynyddodd i 3.2%, ac yn y DU, a gynyddodd i 3.1%. O'r bobl sydd wedi'u cyflogi fel hyn ledled y DU, mae 38% o'r bobl yn y DU sydd wedi'u cyflogi ar gontractau dim oriau rhwng 16 a 24 oed.

2.3 Hunangyflogaeth

Mae hunangyflogaeth yn cynnwys y bobl hynny sy'n ystyried eu hunain yn hunangyflogedig, hynny yw, pobl sydd, yn eu prif gyflogaeth, yn gweithio ar eu liwt eu hunain, p'un a oes ganddynt gyflogaethon ai peidio.



Ffigur 4 Canran y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n hunangyflogedig, Ion – Rhag 2020.⁷

Ledled Gwent, mae canran y bobl sy'n hunangyflogedig yn is na chyfartaledd Cymru, ac eithrio yn Sir Fynwy lle mae'n llawer uwch. Fel y mae Ffigur 6 yn adran 2.5 isod yn dangos, mae'n bosibl bod hyn yn rhannol am fod nifer mwy na'r cyfartaledd o drigolion Sir Fynwy rhwng 16 a 64 oed yn gweithio yn y sectorau Adeiladu a Gwasanaethau Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol, lle mae hunangyflogaeth yn fwy cyffredin.

Local Authority	Total potentially eligible population	Total no. of claims	Total value of claims (£)	Average value of claims made (£)	Total Take-Up Rate
Blaenau Gwent	2,400	1,500	3,800,000	2,500	62%
Caerphilly	6,300	3,900	10,600,000	2,700	62%
Monmouthshire	4,900	2,400	6,600,000	2,700	50%
Newport	5,200	3,200	8,400,000	2,600	62%
Torfaen	3,300	2,000	5,400,000	2,700	61%
(Gwent)	22,100	13,000	34,800,000	2,700	59%
(Wales)	140,000	77,000	203,000,000	2,600	55%

Ffigur 5 Hawliadau am bedwerydd grant y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig hyd at 6 Mehefin 2021.⁸

Local Authority	Awdurdod Lleol
Total potentially eligible population	Cyfanswm y boblogaeth a allai fod yn gymwys
Total no. of claims	Cyfanswm nifer yr hawliadau
Total value of claims (£)	Cyfanswm gwerth yr hawliadau (£)
Average value of claims made (£)	Gwerth yr hawliadau a wnaed ar gyfartaledd (£)

Total Take-Up Rate	Y ganran sy'n hawlio budd-daliadau
Blaenau Gwent	Blaenau Gwent
Caerphilly	Caerffili
Monmouthshire	Sir Fynwy
Newport	Casnewydd
Torfaen	Torfaen
(Gwent)	(Gwent)
(Wales)	(Cymru)


Mae Ffigur 4 yn dangos nifer yr unigolion hunangyflogedig yr aseswyd eu bod yn gymwys i gael cyllid o bedwerydd cylch grant y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (SEISS) ar 6 Mehefin 2021. Cyflwynwyd y grant hwn mewn ymateb i gyfyngiadau COVID-19. Ar y cyfan, mae hyn yn cynnwys unigolion y nododd CThEM eu bod wedi masnachu yn ystod blwyddyn dreth 2019-2020 ac a gyflwynodd eu ffurflen dreth Hunanasesu ar neu cyn 2 Mawrth 2021 ar gyfer y flwyddyn honno.

Mae cyfanswm o 13,000 o geisiadau, sy'n werth bron i £35 miliwn, wedi cael eu hawlio yng Ngwent ar gyfer pedwerydd grant y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig, h.y. £2,700 fesul hawliad ar gyfartaledd. Mae'r nifer sydd wedi gwneud cais yn uwch ledled Gwent na chyfartaledd Cymru, ac eithrio Sir Fynwy. Un rheswm posibl dros y ffaith bod llai o bobl wedi hawlio'r grant yn Sir Fynwy ac mewn rhannau eraill o Gymru, sydd â chyfartaledd o 55% yn unig, yw am ei bod yn ofynnol i unigolion cymwys wneud pedwar hawliad ar wahân ar gyfer pedwar cyfnod gwahanol o amser, gan olygu bod llawer o bobl hunangyflogedig ledled y DU yn ansicr ynglŷn â'u statws cymhwysedd. Daeth y cyfnod hawlio ar gyfer y pedwerydd grant i ben ar 30 Medi 2021 felly mae'n bosibl y bu cynnydd yn nifer y bobl a wnaeth gais yn ystod haf 2021.

2.4 Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth

Mae tua 18.6% o'r bobl sy'n byw yng Ngwent yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol, sy'n is na chyfartaledd Cymru. Mae 14.5% o'r bobl yn gweithio mewn galwedigaethau proffesiynol a thechnegol cyswllt.

Ceir mwy o uwch-reolwyr yn Sir Fynwy o gymharu ag ardaloedd eraill, yn enwedig Blaenau Gwent sydd â'r nifer lleiaf. Mae tua hanner y gweithlu sy'n byw yn Sir Fynwy yn gweithio mewn galwedigaethau lle mae'n debygol y bydd angen cymwysterau addysgol uwch.




Ffigur 6 Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth, pobl rhwng 16 a 64 oed, 2020⁹

Mae lefelau uwch o alwedigaethau elfennol ym Mlaenau Gwent, yn enwedig gweithredwyr prosesau, offer a pheiriannau. Hefyd, mae dwywaith yn fwy o weithwyr 'gofal/hamdden/gwasanaethau eraill' ym Mlaenau Gwent, sef 13% o gymharu â 6% yn Sir Fynwy. Ar y cyfan, dyma'r mathau o gyflogaeth lle nad oes angen cymwysterau addysgol uwch.

Bydd angen i Went sicrhau bod ganddo bobl â'r sgiliau cywir i ddiwallu anghenion sectorau economaidd y dyfodol. Un enghraifft o'r fath yw'r economi greadigol, a nodwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd fel blaenoriaeth ar gyfer datblygu sgiliau yn y dyfodol. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y bydd busnesau yn y diwydiannau creadigol ledled y DU yn cael buddsoddiad gwerth £50m er mwyn eu galluogi i ehangu eu gwaith a chynnis mwy o swyddi. Fodd bynnag, nid yw'n glir eto faint o'r cyllid hwn fydd ar gael i fusnesau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd.

2.5 Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant

Y brif sylfaen gyflogaeth yng Ngwent yw gweithgynhyrchu (15%), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru (10.7%). Mae'r sector hwn yn fwy o lawer ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen. Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi bod peirianeg trafndiaeth, lled-ddargludyddion ac ynni (a'r amgylchedd) yn sector â blaenoriaeth sydd â'r potensial i greu ffyniant yn y rhanbarth dros y 10 - 20 mlynedd nesaf. Golyga hyn fod sylfaen gyflogaeth graidd Gwent mewn sefyllfa dda i weithio yn y sectorau hyn, sef sectorau'r dyfodol.



Ffigur 7 Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant, pobl rhwng 16 a 64 oed, 2019¹⁰. (Noder mai dim ond lle mae'n cyfrif am 3.5% neu fwy o'r bobl gyflogedig o fewn yr awdurdod lleol y mae canran y math o ddiwydiant wedi'i labelu)

- Manufacturing
- Health
- Retail
- Accommodation & food services
- Education
- Public administration & defence
- Business administration & support services
- Professional, scientific & technical
- Construction
- Transport & storage (inc postal)
- Wholesale
- Arts, entertainment, recreation & other services
- Motor trade
- Financial & insurance
- Information & communication
- Mining, quarrying & utilities
- Property
- Agriculture, forestry & fishing

Manufacturing	Gweithgynhyrchu
Health	Iechyd
Retail	Manwerthu
Accommodation & food services	Llety a gwasanaethau bwyd
Education	Addysg
Public administration & defence	Gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn
Business administration & support services	Busnes, gweinyddiaeth a gwasanaethau cymorth
Professional, scientific & technical	Gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol
Construction	Adeiladu
Transport & storage (inc postal)	Trafnidiaeth a storio (gan gynnwys post)
Wholesale	Cyfanwerthu
Arts, entertainment, recreation & other services	Y celfyddydau, adloniant, hamdden a gwasanaethau eraill
Motor trade	Crefftau modur
Financial & insurance	Ariannol ac yswiriant
Information & communication	Gwybodaeth a chyfathrebu
Mining, quarrying & utilities	Mwyngloddio, chwarela a chyfleustodau
Property	Eiddo
Agriculture, forestry & fishing	Amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota

Y sectorau sylweddol eraill yng Ngwent yw iechyd, manwerthu, llety a gwasanaethau bwyd, addysg a gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn. Yng Nghasnewydd, mae gwasanaethau ariannol ac yswiriant yn rhan fwy o'r sylfaen gyflogaeth nag unrhyw le arall, fel sy'n wir am amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn Sir Fynwy. Mae technoleg ariannol hefyd wedi cael ei nodi'n sector â blaenoriaeth ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd dros y 10–20 mlynedd nesaf – byddai Gwent mewn sefyllfa dda i gyfrannu at adeiladu ar sylfaen gyflogaeth Casnewydd.

Mae cyfran uwch o bobl wedi'u cyflogi ym maes 'Manwerthu' ym Mlaenau Gwent, 'Llety a Gwasanaethau Bwyd' yn Sir Fynwy a 'Busnes, Gweinyddiaeth a Gwasanaethau Cymorth' yng Nghasnewydd.

Dros y ddau neu dri degawd diwethaf, mae economi Cymru wedi symud i ffwrdd oddi wrth y diwydiannau cynhyrchu a thuag at ddiwydiannau gwasanaeth. Mae hyn yn wir am Went hefyd, lle mae iechyd, manwerthu, addysg, gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, busnes, gweinyddiaeth a chymorth, gwasanaethau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol a llety a gwasanaethau bwyd bellach yn cyfrif am fwy na 50% o'r holl swyddi ledled Gwent.

Fodd bynnag, mae Gwent wedi llwyddo i gynnal cryfder ei sector gweithgynhyrchu, yn enwedig ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen. Disgwylir i'r duedd tuag at ddiwydiannau gwasanaeth barhau, ond mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd wedi nodi wyth sector â blaenoriaeth a fydd yn bwysig i'r economi dros y degawd nesaf a thu hwnt (rhoddir rhagor o wybodaeth yn adran 4.5). Mae Gwent, gyda'i sylfaen ym meysydd gweithgynhyrchu ac iechyd, mewn sefyllfa dda i gyfrannu at y sectorau â blaenoriaeth hyn, yn enwedig gwyddorau bywyd, peirianeg trafnidiaeth ac ynni. Gall fod cyfle i'r sylfaen gyflogaeth ddod yn fwy amrywiol hefyd.

3. Incwm ac amddifadedd

Mae gwaith da, rheolaidd sy'n talu'n dda yn rhoi digon o arian i bobl wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Fodd bynnag, mae llawer o bobl ar gyflog isel ac nid ydynt bob amser yn gweithio digon o oriau i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol, gan arwain at dlodi mewn gwaith.


Mae gweithlu medrus, amrywiol lle y caiff pawb eu gwerthfawrogi a'u parchu yn helpu i godi safonau a dyheadau, gan gynnig cyfleoedd – i bobl ifanc yn arbennig – i ddod o hyd i waith a helpu i wneud cymunedau Gwent yn gryfach. Hefyd, Cymru oedd â'r gyfran uchaf o weithwyr mewn cyflogaeth anwirfoddol ansicr ledled Prydain Fawr yn 2018/19.¹¹ Gall tlodi mewn gwaith ac ansicrwydd swydd achosi straen sy'n effeithio ar iechyd oherwydd y natur anrhagweladwy a'r diffyg pŵer a all fod gan bobl pan fyddant mewn cyflogaeth ansicr, cyflog isel.

Pwysleisiwyd bod cyfleoedd am swyddi lleol er mwyn galluogi pobl ifanc i aros yn yr ardal yn faes pwysig i drigolion ledled Gwent yn ystod y broses ymgysylltu. Yn benodol, teimlai pobl

fod angen mwy o gyfleoedd i bawb allu cael swyddi sy'n talu'n dda yn eu hardaloedd eu hunain, yn hytrach na bod rhaid iddynt deithio i'r gwaith. Teimlai pobl y byddai trigolion yn gallu cael swyddi sy'n talu'n dda pe bai mwy o gyfleoedd hyfforddi'n cael eu cynnig yn lleol.

3.1 Cyflog gros yr wythnos


Mae Ffigur 7 yn dangos y cyflog gros yr wythnos ar gyfartaledd (canolrif) gweithwyr amser llawn yn ôl preswylfa, ni waeth ym mha leoliad y maent yn gweithio. Fel arfer, caiff y canolrif (neu'r swm sydd yn y canol ar ôl trefnu'r symiau o'r isaf i'r uchaf) ei ddefnyddio ar gyfer cyflogau yn hytrach na'r cymedr, er mwyn osgoi camargraff gan eithriadau (symiau uchel neu isel iawn).



Ffigur 8 Cyflog gros yr wythnos yn ôl preswylfa (£), awdurdodau lleol Gwent, 2020¹²

Mae cyflog gros yr wythnos ar gyfartaledd (canolrif) gweithwyr amser llawn sy'n byw yng Ngwent yn amrywio o £643 yn Sir Fynwy i £454 ym Mlaenau Gwent, sy'n llawer is na chyfartaledd Cymru, sef £542. Ledled Gwent, mae cyflog dynion yn uwch na chyflog menywod mewn gwaith amser llawn. Mae'r gwahaniaeth rhwng cyflogau'n amrywio o 12% yng Nghasnewydd a Thorfaen i 25% ym Mlaenau Gwent.

Yn ôl y data ar bobl sy'n gweithio yng Ngwent ond nid o reidrwydd yn byw yno, gweithwyr amser llawn Sir Fynwy sy'n ennill y cyflog uchaf yng Nghymru, sef £575 yr wythnos, ac mae Torfaen yn ail agos gyda £573. Gallai hyn fod o ganlyniad i gyfraddau uchel o gymudo y tu allan i Gymru neu i ardaloedd cyflogaeth allweddol megis Casnewydd, Caerdydd neu Fryste. Rheswm arall posibl yw cyrhaeddiad addysgol gwell, gan arwain at gyfleoedd gwaith gwell.



Ffigur 9 Cyflog gros yr wythnos (£) yn ôl preswylfa, awdurdodau lleol Gwent, 2011–2020. ¹³

Mae'r duedd at i fyny ar gyfer cyflog gros yr wythnos ar gyfartaledd (canolrif) gweithwyr amser llawn yng Nghaerffili, Casnewydd a Thorfaen wedi bod yn debyg iawn i'r duedd yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae Blaenau Gwent wedi bod gryn dipyn yn is, ac mae Sir Fynwy wedi bod yn llawer uwch dros yr un cyfnod. Yng Nghasnewydd y gwelwyd y cynnydd mwyaf, sef 30% dros yr un cyfnod, a bu cynnydd o 24% yn Nhorfaen. Mae hyn yn cymharu â chynnydd o 19% yng Nghymru.


Er y bu tuedd at i fyny dros y 10 mlynedd ym Mlaenau Gwent, gwelwyd cynnydd o un flwyddyn i'r llall dros y ddwy flynedd ddiweddaraf. Mae'r patrwm cyffredinol a ddisgrifir ar gyfer gweithwyr amser llawn yn debyg ar gyfer dynion a menywod. Gellid priodoli'r duedd at i lawr rhwng 2019 a 2020 ledled Gwent a Chymru i effaith economaidd pandemig COVID-19. Mae'n bosibl mai'r rheswm dros y duedd sylweddol at i lawr rhwng 2018 a 2019 ym Mlaenau Gwent yw'r ffaith bod y sector gweithgynhyrchu a sectorau eraill yn paratoi i'r DU adael yr UE heb gytundeb, gan orfod canolbwyntio ar bentyrru nwyddau cyfalaf bryd hynny yn hytrach na recriwtio neu gadw staff.

Mae gwaith ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn awgrymu bod gweithwyr ar gcontractau dim oriau yn ennill 6.6% yn llai, ar gyfartaledd, na chyflogaeth â nodweddion tebyg mewn swyddi tebyg. Felly, mae gweithiwr nodweddiadol ar gcontract dim oriau sy'n gweithio 21 awr yr wythnos yn ennill £1,000 yn llai y flwyddyn na gweithiwr cyfatebol ar gcontract safonol. Er y gall hunangyflogaeth gynnig mwy o hyblygrwydd, boddhad mewn swydd a chyfraddau treth is i weithwyr, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu y gall olygu llai o sicrwydd swydd a chyflogau is hefyd.¹⁴


3.2 Incwm gwario aelwydydd

Amcangyfrif o'r arian sydd ar gael i aelwydydd ei wario neu ei gynilo ar ôl i dreth, costau perchenogaeth eiddo, cyfraniadau pensiwn ac ati gael eu didynnu yw incwm gwario gros aelwydydd (GDHI), a chyfeirir ato'n aml fel 'incwm gwario'. Bydd faint o incwm gwario sydd gan aelwyd yn effeithio ar ei gallu i fforddio bwyd, cludiant, tanwydd a gwasanaethau digidol – yn enwedig os bydd eu cost yn cynyddu. Ledled Gwent, mae GDHI ar lefel debyg i weddill

Cymru, ond mae'r ffigur yn Sir Fynwy gryn dipyn yn uwch nag ardaloedd eraill, a mwy na 50% yn uwch na Blaenau Gwent.



Ffigur 10 GDHI (£), awdurdodau lleol Gwent, 2018¹⁵




Ffigur 11 GDHI (£), awdurdodau lleol Gwent, 2009–2018

Mae Ffigur 10 yn dangos y duedd dros amser ar gyfer GDHI o fewn awdurdodau lleol Gwent. Tyfodd GDHI ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent dros y 10 mlynedd rhwng 2009 a 2018.


3.3 Aelwydydd mewn gwaith ac aelwydydd heb waith

Aelwydydd mewn gwaith yw'r rhai lle mae'r holl breswylwyr yn gweithio, aelwydydd cymysg yw'r rhai ag o leiaf un o'r preswylwyr yn gweithio, ac aelwydydd heb waith yw'r rhai lle mae pawb yn ddi-waith neu'n economaidd anweithgar.



Ffigur 12 Aelwydydd mewn gwaith/cymysg/heb waith rhwng 16 a 64 oed ar gyfer awdurdodau lleol Gwent, 2019¹⁶

Mae mwy o aelwydydd mewn gwaith yn Sir Fynwy nag yn unrhyw ran arall o Went, a Blaenau Gwent sydd â'r gyfran uchaf o aelwydydd heb waith. Torfaen sydd â'r gyfran isaf o aelwydydd mewn gwaith, ynghyd â'i chyfran uchaf o aelwydydd cymysg.




Ffigur 13 Aelwydydd heb waith, awdurdodau lleol Gwent, 2010–2019¹⁷

Mae Ffigur 12 yn dangos y duedd dros amser ar gyfer aelwydydd heb waith o fewn awdurdodau lleol Gwent. Mae'r duedd at i lawr yng nghyfradd yr aelwydydd heb waith yng Ngwent wedi bod yn debyg iawn i'r duedd yng Nghymru dros y 10 mlynedd diwethaf. Gwelwyd tuedd fach at i lawr ym mhob awdurdod lleol yng Ngwent yn ystod y cyfnod hwn.


Er mai ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y gyfradd uchaf yn ystod y cyfnod hwn, yr ardal hon sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf, gyda gostyngiad o 7% o 29% i 22%, a Chaerffili sy'n ail gyda gostyngiad o 5%. Mae hyn yn cymharu â gostyngiad o 4% yng Ngwent a Chymru. Mae cyfradd yr aelwydydd heb waith wedi aros ar ei hisaf yn Sir Fynwy drwy gydol y cyfnod hwn. Ni fyddwn yn gwybod beth yw effaith pandemig COVID-19, a'r swyddi a roddwyd ar ffyrlo ac a gollwyd yn sgil hynny, ar y tueddiadau hyn nes bydd y data ar gael.

3.4 Diweithdra

Mae Ffigur 13 yn dangos y gyfradd diweithdra, sef nifer y bobl ddi-waith wedi'i fynegi fel canran o'r bobl economaidd weithgar (yn hytrach na'r gyfradd cyflogaeth, a fynegir fel canran o'r holl bobl rhwng 16 a 64 oed). Gall bod mewn gwaith gael effaith gadarnhaol ar iechyd, gwella cyfleoedd mewn bywyd a galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol.



Ffigur 14 Cyfradd diweithdra – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion-Rhag 2020. ¹⁸



Ffigur 15 Cyfradd diweithdra – 2010–2020. Add ref as endnote¹⁹


Mae diweithdra wedi gostwng ledled Gwent ers 2010. Dros y pedair blynedd diweddaraf a ddangosir (2017–2020) mae'r gyfradd wedi gwastatáu ar y cyfan, a hyd yn oed wedi codi fymryn yn Sir Fynwy. Drwy'r rhan fwyaf o'r cyfnod hwn, Blaenau Gwent oedd â'r lefel uchaf o ddiweithdra, ond Caerffili sydd â'r lefel uchaf ers 2017.

Er bod data ar gyflogaeth yn ystod y pandemig yn gyfyngedig, credir bod nifer sylweddol o swyddi ledled Cymru wedi cael eu colli tra oedd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ar waith. Mae'n ymddangos bod cydberthyniad agos rhwng cyfraddau dileu swyddi a haelioni'r cynllun ffyrlo. Er enghraifft, rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd 2020,

cynyddodd y cyfraddau dileu swyddi yng Nghymru, gan gyrraedd tair gwaith yn fwy na'r cyfartaledd cyn y pandemig.²⁰

3.5 Y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws

Roedd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (a elwir hefyd yn ffyrlo) ar waith o 1 Mawrth 2020 tan ddiwedd mis Medi 2021. Mae Ffigur 15 yn dangos ffigurau dros dro ar gyfer rhoi gweithwyr ar ffyrlo gyda chymorth y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws – elwir hefyd yn ffyrlo – ar 31 Mawrth 2021.



Ffigur 16 Cyflogaethau ar ffyrlo o fewn etholaethau, ar 31 Mawrth 2021.²¹

Ledled Gwent ar 14 Ebrill 2021, roedd dros 74,000 o bobl ar ffyrlo. Roedd cyfran fymryn yn uwch yn fenywod. Er i'r cynllun cadw swyddi gadw pobl mewn gwaith, dim ond 80% o gostau cyflogau roedd yn eu talu, a all fod wedi effeithio ar allu pobl i dalu costau sylfaenol eu haelwydydd.

Mae'r ymateb i'r pandemig wedi cael effaith lawer mwy ar rai sectorau, ac adlewyrchir hyn yn y lefelau ffyrlo. Ar 31 Mawrth 2021, y tri sector â'r cyfraddau ffyrlo uchaf oedd y sector llety a gwasanaethau bwyd, gyda 55% (1.06 miliwn) o swyddi cymwys ar ffyrlo, sector y celfyddydau, adloniant a hamdden, gyda 54% (298,000) o swyddi ar ffyrlo, a'r sector gweithgareddau gwasanaethau eraill, gyda 39% (211,700) o swyddi cymwys ar ffyrlo. Roedd cyfradd pob sector arall yn 20% neu'n is, ac roedd cyfradd mwy na hanner y rhain yn is na 10%. Pobl 24 oed ac iau oedd â'r gyfran uchaf o swyddi ar ffyrlo, ac roedd menywod yn y grŵp oedran hwn yn fwy tebygol o fod ar ffyrlo na dynion.

O 1 Gorffennaf 2020, gwnaed y cynllun yn fwy hyblyg fel y gallai cyflogaeth a oedd ar ffyrlo ddychwelyd ar sail ran-amser. Wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, bu cynnydd yn nifer y swyddi a oedd ar ffyrlo yn rhannol a lleihad yn nifer y swyddi a oedd ar ffyrlo yn llawn.

Achosodd y cyhoeddiad y byddai cyfnod arall o gyfyngiadau symud ym mis Tachwedd gynydd llawer mwy sydyn yn y cyfraddau ffyrlo llawn, a digwyddodd hyn eto pan roddwyd cyfyngiadau symud ar waith ym mis Ionawr.

Yr effaith ar y farchnad lafur – Mae'n amlwg bod y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws wedi bod yn allweddol er mwyn osgoi cynnydd mawr mewn diweithdra. Ym mis Ebrill 2020, cyhoeddodd y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ragolwg ar gyfer diweithdra a oedd yn dangos y byddai'n cyrraedd uchafbwynt o 10%, ond y gyfradd diweithdra uchaf yn 2020 oedd 5.1%.²²

Bydd nifer y swyddi y bydd y Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws yn osgoi eu dileu yn y tymor hwy yn dibynnu ar y ffordd y caiff y Cynllun ei ddirwyn i ben. Disgwyliad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol oedd y byddai'r rhan fwyaf o'r bobl a oedd ar ffyrlo ar ddiwedd mis Ionawr 2021 wedi dychwelyd i'w swyddi erbyn mis Mehefin²³. Fodd bynnag, roedd 68,800 o bobl yng Nghymru yn dal ar ffyrlo ar ddiwedd mis Mehefin 2021²⁴.


Mae bod ar ffyrlo wedi creu amodau heriol i lesiant economaidd a chymdeithasol pobl. I lawer o bobl a roddwyd ar ffyrlo ledled Gwent, mae'n bosibl y bu bywyd beunyddiol yn brin o strwythur, pwrpas a chymhelliant. Gallai hyn arwain at ostyngiad mewn lefelau hunan-barch a hunan-werth. Roedd pryderon ariannol oherwydd lleihad mewn incwm neu ofnau mwy hirdymor am ddileu swyddi yn gyffredin ymhlith gweithwyr ar ffyrlo.

Gall peidio â bod mewn cysylltiad â chydweithwyr wneud i bobl deimlo'n fwy ynysig ac unig. Gall bod â gormod o amser i feddwl am y sefyllfa fynd yn drech na phobl ac achosi problemau iechyd meddwl newydd neu waethygu rhai a oedd yn bodoli'n barod. Fel arall, gwelodd llawer o bobl fod ganddynt lai o amser a'u bod yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chyfrifoldebau gofalu ychwanegol os oeddent yn gofalu am blant neu berthnasau agored i niwed.

Daeth y cynllun ffyrlo i ben ar 30 Medi 2021, felly nid yw'n glir eto beth fydd effaith hirdymor y cynllun ar bobl ledled Gwent. Mae'n bosibl y bydd y galw am staff mewn rhai diwydiannau, fel twristiaeth a lletygarwch, yn aros yn is na'r lefelau cyn y pandemig os bydd rhai o'r cyfyngiadau ar deithio a chapasiti o ganlyniad i COVID-19 yn parhau i fod mewn grym yn y tymor hwy, ac mae rhai economegwyr wedi rhybuddio y gallai hyn arwain at sefyllfa ansicr iawn o ran colli swyddi pan ddaw'r cynllun ffyrlo i ben.


3.6 Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

MALIC yw dull swyddogol Llywodraeth Cymru o fesur amddifadedd cymharol ardaloedd bach, gan gynnwys Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) yng Nghymru. Mae'n nodi ardaloedd sydd â'r crynodiadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd, gan gynnwys amddifadedd incwm a chyflogaeth. Mae MALIC yn rhestru pob LSOA yng Nghymru o 1 (y mwyaf o amddifadedd) i 1,909 (y lleiaf o amddifadedd).



Ffigur 17 Awdurdodau lleol Gwent yn safle uchaf MALIC am amddifadedd cyffredinol.²⁵

Blaenau Gwent	Blaenau Gwent
Caerphilly	Caerffili
Monmouthshire	Sir Fynwy
Newport	Casnewydd
Torfaen	Torfaen
Most deprived 10% LSOAs in Wales (ranks 1-191)	Y 10% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-191)
Most deprived 20% LSOAs in Wales (ranks 1-382)	Yr 20% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-382)
Most deprived 30% LSOAs in Wales (ranks 1-573)	Y 30% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-573)
Most deprived 50% LSOAs in Wales (1-955)	Y 50% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-955)




Ffigur 18 Canran yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn safle uchaf MALIC am amddifadedd cyffredinol.²⁶

Mae Ffigurau 16 a 17 yn dangos lleoliad a chanran yr LSOAs sydd gan bob awdurdod lleol yng Ngwent yn y 10%, 20%, 30% a 50% o'r LSOAs â'r mwyaf o amddifadedd cyffredinol yng Nghymru.


Casnewydd sydd â'r ganran uchaf o LSOAs (24%) yn y 10% mwyaf amddifadus yng Nghymru. Sir Fynwy yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru heb yr un LSOA yn y 10% mwyaf amddifadus. Blaenau Gwent sydd â'r ganran uchaf o LSOAs yn y 20%, 30% a 50% mwyaf amddifadus yng Nghymru.

Caiff amddifadedd cyflogaeth ei gyfrifo ar sail y canlynol:

- Nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith
- Nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Nifer y bobl sy'n hawlio Budd-dal Analluogrwydd (Lwfans Anabledd Difrifol)
- Nifer y bobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol nad ydynt mewn gwaith



Ffigur 19 Lleoliad yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd cyflogaeth²⁷




Ffigur 20 Canran yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd cyflogaeth²⁸

Mae Ffigurau 18 a 19 yn dangos lleoliad a chanran yr LSOAs sydd gan bob awdurdod lleol yng Ngwent yn y 10%, 20%, 30% a 50% o'r LSOAs â'r mwyaf o amddifadedd cyflogaeth yng Nghymru.


Blaenau Gwent sydd â'r ganran uchaf o LSOAs (23%) yn y 10% â'r mwyaf o amddifadedd cyflogaeth yng Nghymru. Caerffili a Chasnewydd sydd â'r seithfed gyfradd uchaf yng

Nghymru, a Sir Fynwy yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru heb yr un LSOA yn y 10% â'r mwyaf o amddifadedd cyflogaeth, sy'n wahanol iawn i Flaenau Gwent sydd â'r ganran uchaf o LSOAs yn yr 20%, 30% a 50% â'r mwyaf o amddifadedd cyflogaeth yng Nghymru.



Ffigur 21 Lleoliad LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd incwm²⁹

Blaenau Gwent	Blaenau Gwent
Caerphilly	Caerffili
Monmouthshire	Sir Fynwy
Newport	Casnewydd
Torfaen	Torfaen
Most deprived 10% LSOAs in Wales (ranks 1-191)	Y 10% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-191)
Most deprived 20% LSOAs in Wales (ranks 1-382)	Yr 20% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-382)
Most deprived 30% LSOAs in Wales (ranks 1-573)	Y 30% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-573)
Most deprived 50% LSOAs in Wales (1-955)	Y 50% o LSOAs mwyaf amddifadus yng Nghymru (safleoedd 1-955)



Ffigur 22 Canran yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd incwm³⁰

Caiff amddifadedd incwm ei gyfrifo ar sail y canlynol:

- Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau seiliedig ar incwm; mae hyn yn cynnwys pobl sy'n hawlio Cymorth Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith, Credyd Pensiwn a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm; a'u plant dibynnol
- Nifer y plant ac oedolion mewn teuluoedd sy'n cael Credydau Treth Gwaith a Chredydau Treth Plant ac sydd ag incwm sy'n llai na 60% o incwm canolrifol Cymru (cyn costau tai);
- Ceiswyr Lloches a Gefnogir, h.y. y rhai a gafodd gymorth o dan Adran 95 o'r Ddeddf Lloches a Mewnfudo a'u plant dibynnol
- Pobl ar Gredyd Cynhwysol a'u plant dibynnol


Mae Ffigurau 20 a 21 yn dangos lleoliad a chanran yr LSOAs sydd gan bob awdurdod lleol yng Ngwent yn y 10%, 20%, 30% a 50% o'r LSOAs â'r mwyaf o amddifadedd incwm yng Nghymru.

Casnewydd sydd â'r ganran uchaf o LSOAs (20%) yn y 10% â'r mwyaf o amddifadedd incwm yng Nghymru, nid yn unig o gymharu ag awdurdodau lleol Gwent ond o gymharu â'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Ar lefel gyffredinol ar gyfer Gwent, mae hyn yn 11% o'r LSOAs (ar sail data ar lefel Bwrdd lechyd). Sir Fynwy yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru heb yr un LSOA yn y 10% â'r mwyaf o amddifadedd incwm. Blaenau Gwent sydd â'r ganran uchaf o LSOAs yn y 20%, 30% a 50% â'r mwyaf o amddifadedd incwm yng Nghymru.


Nid yw amddifadedd incwm o reidrwydd yn deillio o ddiweithdra. Bu cynnydd o 26.5% yn y risg o dlodi i oedolion sy'n byw mewn aelwydydd sy'n gweithio yng Nghymru rhwng 2004 a 2015. Rhwng 2017-18 a 2019-20, roedd 47% o oedolion o oedran gweithio yng Nghymru ar oedd yn byw mewn tlodi incwm cymharol (ar ôl costau tai) yn byw perthyn i aelwydydd ag o leiaf un aelod a oedd yn gyflogedig neu'n hunangyflogedig.³¹ Bydd hyn yn aml o ganlyniad i'r cynnydd mewn costau byw i bobl yn y sector rhentu cymdeithasol a phreifat, yn enwedig teuluoedd un rhiant neu deuluoedd â phlant y mae angen cymorth arnynt.³²

3.7 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau

Mae nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn cyfeirio at y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf am eu bod yn ddi-waith. Caiff y nifer hwn ei fesur drwy gyfuno nifer y bobl sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith a chredydau Yswiriant Gwladol â nifer y bobl sy'n cael Credyd Cynhwysol yn bennaf am eu bod yn ddi-waith. Mae hawlwr yn datgan eu bod yn ddi-waith a'u bod yn gallu gweithio, ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith yn ystod yr wythnos pan gaiff yr hawliad ei wneud.




Ffigur 23 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau – trigolion rhwng 16 a 64 oed, Mai 2021



Ffigur 24 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel canran o'r trigolion rhwng 16 a 64 oed, Mai 2021³³

Ym mis Mai 2021, nifer y bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau fel canran o'r bobl rhwng 16 a 64 oed yng Ngwent oedd 5.9%, o gymharu â 5.4% yng Nghymru. Mae hyn yn amrywio o 3.7% yn Sir Fynwy i 7.3% yng Nghasnewydd, sef y gyfradd isaf a'r gyfradd uchaf o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae Ffigur 22 yn dangos bod nifer sylweddol o bobl yn hawlio budd-daliadau mewn rhai LSOAs yng Nghasnewydd o gymharu â gweddill Gwent, gyda rhwng 100 a 150 o hawlwr mewn 20% o LSOAs a rhwng 155 a 305 o hawlwr mewn 6%. Casnewydd a Blaenau Gwent sydd â ddwy gyfradd uchaf yng Nghymru, a chyfradd Sir Fynwy yw'r isaf.



Ffigur 25 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel canran o'r trigolion rhwng 16 a 64 oed

Mae Ffigur 24 yn dangos y cynnydd sylweddol sydyn yn nifer y bobl a oedd yn hawlio budd-daliadau rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020 ym mhob un o awdurdodau lleol Gwent a Chymru gyfan o ganlyniad i effaith economaidd pandemig COVID-19. Mae'r cynnydd yn nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau ers dechrau'r pandemig wedi effeithio ar bobl ym mhob grŵp oedran yng Ngwent. Y gyfradd gyfartalog o ran pobl a oedd yn hawlio budd-daliadau yn awdurdodau lleol Gwent ym mis Mawrth 2020 oedd 3.4%. Cododd y gyfradd i 6.4% ym mis Mai 2020, ac mae wedi aros yn uchel ers hynny. Y gyfradd ar gyfer Gwent ar hyn o bryd yw 5.9%.

3.8 Newidiadau i fudd-daliadau lles

Y toriad i Gredyd Cynhwysol – effaith fesul etholaeth

Mae dadansoddiad a wnaed gan Sefydliad Joseph Rowntree ar 26 Awst 2021 yn dangos nifer a chyfran y teuluoedd y bydd y toriad o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith ym mhob un o etholaethau seneddol y DU yn effeithio arnynt.


Y toriad i Gredyd Cynhwysol: effaith y toriad arfaethedig i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith ym mis Hydref fesul etholaeth:

- Byddai'n effeithio ar fwy nag un o bob pedwar teulu (sydd â phlant neu sydd heb blant) mewn 140 o etholaethau.
- Ar gyfartaledd, bydd toriad o £1,040 y flwyddyn i incwm 21% o'r holl deuluoedd o oedran gweithio (sydd â phlant neu sydd heb blant) ym Mhrydain Fawr.
- Bydd y toriad yn effeithio ar fwy nag un o bob tri theulu o oedran gweithio sydd â phlant mewn mwy na 400 o etholaethau.

Ym mis Mawrth 2020, wrth i ni wynebu canlyniadau economaidd y pandemig, cydnabu'r Llywodraeth fod ein cyfraddau nawdd cymdeithasol yn rhy isel i ddiogelu teuluoedd pan fo angen. Cyflwynodd y Llywodraeth gynnydd o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith. Fodd bynnag, torrwyd y cynnydd o £20 yr wythnos o 6 Hydref 2021 ymlaen. Y toriad hwn fydd y toriad mwyaf dros nos i gyfradd sylfaenol nawdd cymdeithasol ers i'r wladwriaeth les fodern gael ei sefydlu.

Bydd cynifer â chwe miliwn o deuluoedd ar incwm isel yn colli £1,040 o'u hincwm blyneddol, gan arwain at galedi ariannol difrifol a pheri i 500,000 o bobl lithro i mewn i dlodi – gan gynnwys 200,000 o blant. Bydd y toriad yn cael effaith anghymesur ar deuluoedd sydd â phlant, a chwech o bob 10 teulu un rhiant yn y DU.

Mae Ffigur 23 yn dangos amcangyfrif o ganran y teuluoedd yng Ngwent, fesul etholaeth, y bydd y toriad i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith ym mis Hydref 2021 yn effeithio arnynt.



Ffigur 26 Canran y teuluoedd y bydd y toriad i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith ym mis Hydref 2021 yn effeithio arnynt.³⁴


Mae'r amcangyfrif o ganran y teuluoedd yng Ngwent y bydd y toriad arfaethedig i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith yn effeithio arnynt yn amrywio o 15.8% yn Sir Fynwy i

26.1% yn etholaethau Torfaen a Dwyrain Casnewydd. Torfaen a Dwyrain Casnewydd yw'r drydedd a'r bedwaredd gyfradd uchaf o blith 40 o etholaethau yng Nghymru.

Bydd y toriad yn cael effaith ar ganran lawer uwch o deuluoedd â phlant sy'n cael Credyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith, gan amrywio o 30.7% yn Sir Fynwy i 48.8% yn Nhorfaen, sef y drydedd gyfradd uchaf yng Nghymru. Mae canran Dwyrain Casnewydd, sef 48.5%, a Blaenau Gwent, sef 47.6%, yn agos at ganran Torfaen hefyd.


3.9 Pobl Economaidd Anweithgar

Mae gweithgarwch economaidd ardal yn seiliedig ar ddwy elfen sylfaenol – y bobl yn yr ardal sy'n economaidd weithgar, a'r bobl sy'n economaidd anweithgar. Mae'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn cynnwys myfyrwyr, pobl sy'n gofalu am aelodau o'r teulu, pobl â salwch dros dro neu hirdymor, a phobl sydd wedi ymddeol.



Ffigur 27 Cyfradd anweithgarwch economaidd – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion–Rhag 2020³⁵

Mae canran y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n economaidd anweithgar yn is yng Ngwent o gymharu â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae hyn yn amrywio o 16.6% yn Sir Fynwy i 25.1% yn Nhorfaen a 26% ym Mlaenau Gwent.



Ffigur 28 Cyfradd anweithgarwch economaidd yn ôl rheswm, Ion–Rhag 2020³⁶

Mae canran Gwent o bobl sy'n economaidd anweithgar ac sy'n gofalu am aelodau o'r teulu neu'r cartref, sydd wedi ymddeol neu sy'n perthyn i gategori 'arall' yn debyg i ganran Cymru. Fodd bynnag, mae gan Went ganran gryn dipyn yn uwch o bobl sydd â salwch hirdymor (34.1% o gymharu â 28.3% yng Nghymru) ond canran is o fyfyrwyr (20.0% o gymharu â 26.5% yng Nghymru).

O ran pobl economaidd anweithgar ar lefel awdurdod lleol, mae canran y bobl â salwch hirdymor yn arbennig o uchel yn Nhorfaen (42.1%) a Blaenau Gwent (39.7%), yn enwedig o gymharu â Sir Fynwy sydd â thua hanner y cyfraddau hynny, sef 20.1%. Myfyrwyr neu bobl wedi ymddeol yw bron hanner (49.8%) y bobl economaidd anweithgar yn Sir Fynwy. Mae'r gyfran hon gryn gipyn yn uwch na'r awdurdodau lleol eraill yng Ngwent.

Mae poblogaeth Sir Fynwy, fel y rhan fwyaf o Gymru a'r DU, yn heneiddio – ac er y gall twf yn nifer y bobl hŷn arwain at fanteision enfawr i ardal, gall hefyd roi mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus wrth iddi fynd yn fwy tebygol y bydd angen i bobl gael gofal neu gymorth yn ddiweddarach mewn bywyd. Rydym yn gweld tystiolaeth o hyn yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, gyda chyfuniad o fwy o alw a phrinder staff gofal cymdeithasol yn arwain at bwysau ar wasanaethau ym mhob rhan o'r system.³⁷

Gall hyn hefyd olygu y bydd mwy o bobl yn ymgymryd â chyfrifoldebau gofalu am deulu neu ffrindiau tra byddant yn heneiddio eu hunain, ac mae'n bosibl y bydd angen i sefydliadau'r Trydydd Sector gynyddu ei capasiti er mwyn cefnogi pobl hŷn neu eu helpu i ddod yn fwy cysylltiedig â'u cymunedau lleol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent.

3.10 Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)

Nid oes data ar gael ar lefel awdurdod lleol, ac mae'r data sydd ar gael yn cyfeirio at flwyddyn galendr 2020 ar lefel Cymru. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn yn ystod pandemig COVID-19.

Mae'n bosibl bod y pandemig wedi effeithio ar gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant yn ystod 2020 (data a ryddhawyd ym mis Ebrill 2021).

Pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed

Ar y cyfan, roedd cyfran y bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed a oedd yn NEET wedi bod yn gostwng yn raddol rhwng 2011 a 2017, ond bu cynnydd bach yn 2018 a 2019. Mae maint y cynnydd hwn yn amrywio yn dibynnu ar y ffynhonnell a ddefnyddir.

Ar sail y datganiad ystadegol cyntaf, ar ddiwedd 2019 roedd 11.1% o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn NEET (11,200) o gymharu â 10.6% (10,800) ar ddiwedd 2018. Ar sail yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 4 2020, amcangyfrifwyd bod 7.4% o bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed yn NEET, o gymharu â 10.2% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 4 2019.

Mae data Gyrfa Cymru ar hynt disgyblion yn awgrymu mai dim ond 1.7% o oedolion ifanc oedran Blwyddyn 11, a 0.6% o oedolion ifanc oedran Blwyddyn 12 yng Ngwent y gwyddys eu bod mewn unrhyw fath o addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Mae hyn yn cynyddu i 6.1% o oedolion ifanc oedran Blwyddyn 13.³⁸

Pobl ifanc rhwng 19 a 24 oed

Ar sail y datganiad ystadegol cyntaf, ar ddiwedd 2019 roedd 15.7% o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn NEET (37,400), o gymharu ag 16.0% (38,500) yn 2018.


Ar ôl dechrau'r dirwasgiad yn 2008, bu cynnydd mawr yng nghyfran y bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed a oedd yn NEET, o 17.4% yn 2008 i tua 22-23% rhwng 2009 a 2012. Wedyn, bu gostyngiad bob blwyddyn tan 2017. Cynnydd mewn gweithgarwch yn y farchnad lafur oedd yn gyfrifol am y gostyngiad, wrth i nifer y bobl a oedd yn cymryd rhan mewn addysg a hyfforddiant aros yn gymharol sefydlog.

Ar sail yr Arolwg Blyneddol o'r Boblogaeth, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 4 2020, amcangyfrifwyd bod 14.9% o bobl ifanc rhwng 19 a 24 oed yn NEET, o gymharu â 15.6% ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Chwarter 4 2019³⁹.

3.11 Banciau bwyd

Ni ellir defnyddio ffigurau Ymddiriedolaeth Trussell i esbonio graddfa'r defnydd o fanciau bwyd ledled y DU yn llawn, am fod y ffigurau'n gysylltiedig â banciau bwyd yn rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth yn hytrach na'r cannoedd o fanciau bwyd annibynnol. Mae parseli'n cyfeirio

at nifer y parcel bwyd brys a ddosberthir gan fanciau bwyd, sy'n gallu cyflenwi gwerth naill ai tri neu saith diwrnod o nwyddau. Nid oes gwaith cyfrif cyfwerthedd wedi cael ei wneud er mwyn gallu cymharu parceli saith diwrnod â pharseli tri diwrnod.



Ffigur 29 Parseli bwyd a ddosbarthwyd, drwy drefniadau dosbarthu Ymddiriedolaeth Trussell⁴⁰

Yn 2019-20, dosbarthwyd cyfanswm o 134,892 o barseli bwyd yng Nghymru. Dosbarthwyd 27,515 o barseli yng Ngwent rhwng y pum awdurdod lleol. Dosbarthwyd 4,432 ym Mlaenau Gwent, 8,945 yng Nghaerffili, 3,230 yn Sir Fynwy, 4,032 yng Nghasnewydd a 6,876 yn Nhorfaen.

Wedyn, yn 2020-21, dosbarthwyd 145,828 (cynnydd o 8%) ledled Cymru, a bu cynnydd o 1,506 (5%) hefyd yn nifer y parceli a ddosbarthwyd yng Ngwent, gan olygu bod 29,021 wedi'u dosbarthu. Ym Mlaenau Gwent, lleihaodd nifer y parceli bwyd a ddosbarthwyd i 3,945, ond bu cynnydd yn y niferoedd a ddosbarthwyd ym mhob un o'r awdurdodau lleol eraill. Dosbarthwyd 9,623 yng Nghaerffili, 3,962 yn Sir Fynwy, 4,980 yng Nghasnewydd a 6,511 yn Nhorfaen.

Ar ddechrau'r pandemig, cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Trussell y bu cynnydd o 21% yn y galw am barseli bwyd yng Nghymru, o ganlyniad i leihad mewn incwm aelwydydd am nad oedd y rhan fwyaf o bobl yn gallu gweithio yn ystod y pandemig, gan olygu y bu'n rhaid i fwy o aelodau o'r cyhoedd ddefnyddio eu banc bwyd lleol. Yng Nghymru, datblygwyd cynlluniau hygyrch yn ystod y pandemig ar gyfer y bobl hynny a oedd yn wynebu argyfwng, megis y Gronfa Cymorth Dewisol.

Dylid bod yn ofalus wrth gymharu'r twf yn niferoedd y Parseli bwyd a ddosbarthwyd mewn gwahanol ardaloedd. Ceir llawer o wahanol ffactorau a all ddylanwadu ar nifer y parceli a ddosbarthwyd o fewn ardal leol, megis mynychder banciau bwyd eraill. Er enghraifft, ym Mlaenau Gwent, y rheswm dros y lleihad, fwy na thebyg, oedd cynnydd mewn rhoddion a darpariaeth gan fanciau bwyd cymunedol mewn mannau eraill, er enghraifft drwy grwpiau

cymunedol yn y Trydydd Sector a Chybiau Rotari, a oedd yn cynyddu eu capasiti yn ystod y pandemig ac yn darparu mwy o wasanaeth banc bwyd annibynnol.

Nid yw'r gwasanaethau hyn wedi'u cynnwys yn ffigurau Ymddiriedolaeth Trussell. Er bod llawer o'r darparwyr a Thrydydd Sector hyn yn cyflawni rôl fyrdymor bwysig, ni allant gynnig ateb hirdymor cynaliadwy oni roddir cymorth i'w galluogi i ddarparu gwasanaeth mwy cyfannol sy'n mynd i'r afael â phenderfynyddion ehangach tlodi bwyd.

Mae hefyd yn bwysig nodi yma nad defnydd o fanciau bwyd ar ei ben hun yw'r unig ddangosydd ar gyfer tlodi bwyd ac ansicrwydd bwyd. Mae'n bosibl bod llawer o deuluoedd ac aelwydydd nad ydynt yn cyrraedd y trothwyon incwm isel neu ddiweithdra ar gyfer rhai talebau banc bwyd, neu sy'n parhau i osgoi banciau bwyd oherwydd y stigma sy'n gysylltiedig â gorfod dibynnu arnynt, felly dim ond rhan fach o'r darlun cyfan a ddangosir gan y defnydd o fanciau bwyd wrth geisio canfod lefelau tlodi bwyd mewn unrhyw ardal neu ranbarth.

3.12 Sicrwydd bwyd

Mae adroddiad y Sefydliad Bwyd, "The Impact of Covid-19 on Household Food Security" yn seiliedig ar ddata a gasglwyd o saith cylch o arolygon cenedlaethol cynrychioladol a gynhaliwyd ledled y DU rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ionawr 2021 i fonitro effaith COVID-19 ar lefelau ansicrwydd bwyd.

Prif ganfyddiadau'r adroddiad yw bod mwy o bobl yn wynebu ansicrwydd bwyd nawr na chyn y pandemig, er i fesurau brys hanfodol gael eu rhoi ar waith. Helpodd grwpiau cymunedol a gwirfoddol filiynau o bobl agored i niwed, ond mae'r dystiolaeth yn dangos bod gormod o aelwydydd ag ansicrwydd bwyd wedi ei chael hi'n anodd cael gafael ar gymorth. Nid yw dibynnu ar fanciau bwyd ac elusennau cymorth bwyd y mae llawer o alw amdanynt yn rhwyd ddiogelwch gynaliadwy i unigolion a theuluoedd na allant fforddio deiet da.

Mae bob amser wedi bod yn anos i aelwydydd â phlant roi bwyd ar y bwrdd, yn enwedig rhieni sengl, teuluoedd mawr a theuluoedd incwm isel. Mae COVID-19 wedi gwaethygu'r caledi ariannol a wynebier gan aelwydydd incwm isel, a hefyd wedi creu grŵp newydd sy'n agored i niwed a oedd yn sefydlog yn ariannol cyn COVID-19.

Adroddir ar y darlun o ran ansicrwydd bwyd ym mis Ionawr 2021 hefyd, gan nodi'r canlynol:

- Mae 22% o aelwydydd wedi colli incwm ers cyn y pandemig
- Mae 9% o oedolion wedi wynebu ansicrwydd bwyd yn ystod y chwe mis diwethaf
- Mae 12% o aelwydydd â phlant yn byw mewn cartrefi sydd wedi wynebu ansicrwydd bwyd yn ystod y chwe mis diwethaf
- Mae 41% o aelwydydd â phlant sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi wynebu ansicrwydd bwyd yn ystod y chwe mis diwethaf

Rhai grwpiau â lefelau uwch o ansicrwydd bwyd:-

- Mae pum gwaith yn fwy o bobl y mae problemau iechyd/anabledd yn cyfyngu arnynt i raddau helaeth, na phobl heb ddim problemau iechyd/anabledd
- Mae dwywaith yn fwy o bobl sy'n eithriadol o agored i niwed yn glinigol ar gyfartaledd
- Mae 50% yn fwy o weithwyr yn y sector bwyd o gymharu â gweithwyr nad ydynt yn y sector bwyd

- Mae aelwydydd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ddwywaith yn fwy tebygol o ddioddef o ansicrwydd bwyd nag aelwydydd Gwyn Prydeinig
- Mae'r ymatebion i'r arolygon yn dangos mai'r ffactorau sy'n achosi ansicrwydd bwyd yw dim digon o arian (55%), bod yn ynysig (31%), diffyg cyflenwad (23%) ac 'arall' (8%).

Gwneir tri phrif argymhelliad i fynd i'r afael â thlodi bwyd⁴¹:

1. **Adolygu prydau ysgol am ddim:** er mwyn sicrhau bod prydau ysgol am ddim yn cael yr effaith faethol ac addysgol orau posibl a hybu dysgu a llesiant plant drwy gydol y diwrnod ysgol. Dylid adolygu'r trothwy cymhwysedd presennol er mwyn sicrhau nad oes plant difreintiedig yn colli allan ar fanteision prydau ysgol am ddim.
2. **Talu cyflogau teg a pharhau â'r cynnydd:** Mae angen i fusnesau dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w cyflogeion. Er mwyn brwydro yn erbyn effaith economaidd ofnadwy'r pandemig, bydd angen cyfres ehangach o bolisïau i roi hwb i incymau aelwydydd tlawd, gan gynnwys cadw'r cynnydd o £20 i Gredyd Cynhwysol yn barhaol (a'i ymestyn i bobl sy'n cael hen fudd-daliadau), a chael gwared ar y cyfnod aros o bum wythnos am Gredyd Cynhwysol, y terfyn dau blentyn a'r cap ar fudd-daliadau.
3. **Arweinyddiaeth a gweithredu i fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd:** Wrth i ni godi allan o'r argyfwng, bydd angen awdurdod penodedig yn y Llywodraeth a fydd yn gyfrifol am gadw golwg ar ansicrwydd bwyd neu fynd i'r afael ag ef, gyda phwerau i lywio a sbarduno camau gweithredu ar lefel genedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol mewn ymateb i'r data.

Mae rhagor o waith wedi cael ei wneud gan ddefnyddio'r 'data cyfredol' o arolwg y Sefydliad Bwyd o 4,231 o oedolion ledled y DU y cyfeiriwyd ato uchod, a gynhaliwyd ar ddiwedd mis Ionawr/dechrau mis Chwefror 2021 gan academyddion o Brifysgol Fetropolitan Manceinion a Phrifysgol Sheffield.


Mae'r amcangyfrifon 'lleol' dan sylw yn defnyddio techneg sy'n cynnwys dull amcangyfrif ardal fach ar sail atchweliad logistaidd aml-lefel. Mae hyn yn cynnwys amcangyfrif y cydberthnasau allweddol rhwng newidynnau rhagfynegi a newidynnau'r canlyniadau ansicrwydd bwyd. Caiff codau awdurdodau lleol eu cynnwys yn yr arolwg er mwyn gallu amcangyfrif ardaloedd bach.

Sefydlwyd banciau bwyd mewn cymunedau lle mae pobl wedi cydnabod y broblem hon o ran llwgu, gyda'r bwriad o ddiwallu anghenion bwyd ar unwaith. Diffinnir llwgu fel bod wedi bod yn llwglyd o leiaf unwaith yn ystod y mis blaenorol heb allu cael bwyd.

Mae'r astudiaeth yn nodi dau fesur pellach, sef pobl sy'n ei chael hi'n anodd, gan gynnwys pobl sydd wedi cwtogi ar fwyd neu wedi mynd heb brydau, a phobl sy'n poeni am allu cael gafael ar ddigon o fwyd ar eu cyfer eu hunain a'u teuluoedd. Fel arfer, ystyrir bod yr ail grŵp hwn yn wynebu ychydig o ansicrwydd bwyd am fod ganddynt ddigon o fwyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl eu bod wedi dechrau prynu bwyd o ansawdd maethol israddol.

Mae cadwyn cyflenwi bwyd ansicr a dibyniaeth ar fwyd dros ben, e.e. stoc archfarchnad/siop fara ar ddiwedd y dydd wedi arwain at amgylchedd lle mae pobl sydd mewn tlodi yn bwyta a)

gwastraff cymdeithas brif ffrwd a b) bwydydd llai maethlon. Mae hyn wedi arwain at effeithiau hirdymor ar salwch sy'n gysylltiedig â deiet. Fodd bynnag, mae Ymddiriedolaeth Trussell yn ymrwymedig i ddarparu pecynnau bwyd sy'n gytbwys o ran maeth. Gallai mannau aildosbarthu bwyd yn y gymuned gael eu paratoi'n well o ran adnoddau a gwybodaeth er mwyn cynnig budd hirdymor i bobl sy'n ei chael hi'n anodd eu bwydo eu hunain, a'u helpu i godi allan o dlodi.



Ffigur 30 Grwpiau tlodi bwyd, Ionawr 2021⁴²

Gwelir bod pob un o'r awdurdodau lleol yng Ngwent wedi wynebu lefelau o dlodi bwyd. Yn arbennig, amcangyfrifir bod 11.9% o aelwydydd Casnewydd yn wynebu llwgu, sef y ganran uchaf nid yn unig yng Ngwent ond yng Nghymru, a'r drydedd uchaf yn y DU. Hefyd, Casnewydd sydd â'r ganran uchaf ond un o aelwydydd yng Nghymru, sef 17.4%, sy'n wynebu ansicrwydd bwyd, a 15.5% sy'n pryderu am eu diogelwch bwyd. Mae gan Gaerffili a Blaenau Gwent hefyd ganran uchel o aelwydydd sy'n wynebu tlodi bwyd, ac maent yn y chwarterel uchaf ar gyfer pob mesur yng Nghymru.

Mae awduron y astudiaeth yn annog ymchwilyr a llunwyr polisiâu i ystyried ffyrdd o roi cymorth y tu hwnt i ddiwallu anghenion bwyd uniongyrchol pobl sy'n wynebu ansicrwydd bwyd difrifol, a defnyddio'r data hyn fel meincnod i ddangos gwelliant dros amser. Hefyd, argymhellir y dylid defnyddio'r data i lywio trafodaethau polisi lleol a chenedlaethol a allai waethygu ansicrwydd bwyd neu gynyddu sicrwydd bwyd ledled y DU.⁴³

4. Gofal plant

Gall rhieni plant 3 a 4 oed yng Nghymru sy'n gweithio (rhaid bod pob rhiant ar yr aelwyd yn gweithio ac yn ennill cyfanswm o lai na £100,000 y flwyddyn) gael gwerth 30 awr o ofal plant

am ddim yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn. Os bydd angen iddynt dalu am 20 awr ychwanegol i wneud cyfanswm o le amser llawn (50 awr yr wythnos gan gynnwys amser cymudo), byddai lle mewn meithrinfa yn costio £89.12 yr wythnos ar gyfartaledd ledled Cymru.⁴⁴ Fodd bynnag, nid yw'r 30 awr o ddarpariaeth gofal plant am ddim yn ymestyn i deuluoedd lle mae un rhiant yn cael hyfforddiant, felly mae'n anodd i'r rhieni hynny sy'n ceisio hybu eu cyfleoedd cyflogaeth drwy gael hyfforddiant, heb allu manteisio at y gofal plant wedi'i ariannu.

Mae gan bob plentyn 3 a 4 oed hawl i gael o leiaf 10 awr yr wythnos o ofal plant am ddim, p'un a yw'r rhiant neu'r rhieni'n gweithio ai peidio. Gall rhai plant 2 a 3 oed yng Nghymru gael 12.5 awr yr wythnos o ofal plant am ddim fel rhan o gynllun Dechrau'n Deg, a ddarperir mewn ardaloedd a dargedir lle mae amddifadedd yn uwch na'r cyfartaledd. Er gwaethaf y cymorth sydd ar gael i rieni ledled Gwent, mae hyn yn dal i olygu y gall argaeledd gofal plant, a'r gallu i fanteisio arno, ar gyfer gweddill yr wythnos waith, fod yn rhwystr gwirioneddol rhag cyflogaeth i lawer o bobl.

Nid dim ond gwasanaeth i rieni sy'n gweithio yw gofal plant; mae'n wasanaeth gwerthfawr i blant hefyd. Mae gwaith ymchwil yn dangos y gall gofal plant arwain at fanteision uniongyrchol a hirdymor i blant o'r cefndiroedd tlotaif, os cânt ddarpariaeth o safon uchel yn eu blynyddoedd cynnar, gan wella rhagolygon cenedlaethau'r dyfodol.⁴⁵

O dan Ddeddf Gofal Plant 2006, mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o ofal plant ar gael i ddiwallu anghenion rhieni a gofalwyr sy'n gweithio yn eu hardaloedd, ar gyfer plant hyd at 1 Medi ar ôl iddynt gyrraedd 14 oed, neu nes iddynt gyrraedd 18 oed yn achos plant ag anabledd.

Mae asesiadau a gynhaliwyd ar gyfer y pum awdurdod lleol yng Ngwent yn 2017 yn dangos bod cyfanswm nifer y darparwyr gofal plant cofrestredig a heb eu cofrestru a chyfanswm y lleoedd sydd ar gael ledled Gwent fel a ganlyn.

- Blaenau Gwent – 66 o ddarparwyr yn cynnig 1,329 o leoedd⁴⁶
- Caerffili – 346 o ddarparwyr yn cynnig 2,080 o leoedd⁴⁷
- Sir Fynwy – 115 o ddarparwyr yn cynnig 2,304 o leoedd⁴⁸
- Casnewydd – 151 o ddarparwyr yn cynnig 5,632⁴⁹ o leoedd (*fel yr oedd y sefyllfa ym mis Mawrth 2021*)
- Torfaen – 151 o ddarparwyr yn cynnig 4,286 o leoedd⁵⁰

Dangosodd yr asesiadau hefyd fod rhieni â phlant yn defnyddio gwasanaethau gofal plant am amrywiaeth o wahanol resymau. Y rhesymau mwyaf cyffredin dros ddefnyddio gofal plant ledled Gwent oedd diweithdra neu geisio gwaith. Ymhlith y rhesymau cyffredin eraill roedd manteision cymdeithasol neu addysgol i'r plentyn/plant neu astudio yn y brifysgol neu'r coleg.

Fodd bynnag, drwy ymgysylltu â rhieni, gwelwyd bod costau uchel gofal plant yn rheswm mawr dros beidio â defnyddio gofal plant, sy'n golygu ei fod yn anfforddiadwy i lawer o deuluoedd ledled Gwent. Hefyd, tynnwyd sylw at yr angen am amseroedd agor hyblyg/trefniadau gofal cofleidiol er mwyn cynorthwyo rhieni ar batrymau sifftiau afreolaidd. Yn aml, bydd y ffaith bod rhieni'n gofalu am eu plant am fod costau gofal plant yn rhy uchel


neu am na allant ddod o hyd i gymorth ar amseroedd addas o'r dydd, yn arwain at gynyddu anweithgarwch economaidd.

Mae'r asesiadau'n awgrymu bod amrywiaeth resymol o fathau o ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd cynllunio cymunedol. Fodd bynnag, mae gofal plant cyfrwng Cymraeg a darpariaeth i blant ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau yn isel ledled Gwent ar y cyfan. Bod yn rhiant sy'n aros gartref neu gael cymorth gan deulu neu ffrindiau sy'n gofalu am blant oedd y rhesymau mwyaf cyffredin i rieni yng Ngwent beidio â defnyddio gofal plant.

5. Busnes


5.1 Demograffeg busnesau

Mae demograffeg busnesau yn rhoi amcangyfrif o nifer y busnesau cofrestredig (h.y. TAW neu TWE) newydd a nifer y rhai sydd wedi cau, yn ogystal â chyfraddau goroesi.



Ffigur 31 Mentrau busnes gweithredol fesul 10,000 o oedran gweithio, 2019⁵¹

Mae nifer y mentrau busnes gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth yng Ngwent, sef 503, yn is na'r nifer yng Nghymru, sef 539. Mae hyn yn amrywio o 317 ym Mlaenau Gwent i 765 yn Sir Fynwy, sef y cyfraddau isaf (Blaenau Gwent) ac uchaf ond un (Sir Fynwy) o blith y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Caerffili sydd â'r bedwaredd gyfradd isaf yng Nghymru, a Thorfaen sydd â'r bumed gyfradd isaf.




Ffigur 32 Busnesau gweithredol fesul 10,000 o oedran gweithio, 2008–2019


Mae Ffigur 12 yn dangos y duedd dros amser ar gyfer busnesau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio. Mae'r gyfradd yng Ngwent wedi bod yn cynyddu fymryn bob blwyddyn ers 2008, gyda chynnydd mwy amlwg rhwng 2017 a 2019 ar y cyfan, yn enwedig yng Nghasnewydd a Chaerffili. Mae'n werth ymchwilio i'r rhesymau pam y gwelwyd cynnydd mor sylweddol yn 2017 a gostyngiad wedi hynny yng Nghasnewydd.

Yn y ddau awdurdod lleol hyn y gwelwyd y cynnydd mwyaf yn nifer y busnesau gweithredol rhwng 2008 a 2019, gyda 178 yn rhagor o fusnesau gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth yng Nghasnewydd, ac 84 yn rhagor yng Nghaerffili. Drwy gydol y cyfnod hwn, ym Mlaenau Gwent y mae'r gyfradd wedi bod ar ei hisaf, ac yn Sir Fynwy y mae wedi bod ar ei uchaf.


Mae cyfradd y busnesau gweithredol yn 2019 o fewn awdurdodau lleol Gwent yn seiliedig ar gyfradd y busnesau gweithredol newydd, y busnesau gweithredol sydd wedi cau a chyfraddau goroesi busnesau yn y blynnyddoedd cyn hynny. Mae'r rhain i'w gweld dros y pum mlynedd diweddaraf yn Ffigurau 33 i 35.



Ffigur 33 Cyfradd y busnesau gweithredol newydd fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio⁵²



Ffigur 34 Cyfradd y busnesau gweithredol sydd wedi cau fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio



Ffigur 35 Canran y busnesau newydd sydd wedi goroesi ar ôl tair blynedd o fasnachu

Er i gyfradd y busnesau gweithredol newydd aros yn sefydlog ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy a Thorfaen dros y pum mlynedd diweddaraf, bu cynnydd amlwg yn 2018 ar gyfer Caerffili a chynnydd sylweddol yn 2017 ar gyfer Casnewydd.

Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd amlwg yng nghyfradd y busnesau gweithredol sydd wedi cau yng Nghasnewydd ddwy flynedd yn ddiweddarach yn 2019. Er gwaethaf hyn, gwelwyd cynnydd net yng nghyfradd y busnesau gweithredol yng Nghasnewydd ynghyd ag awdurdodau lleol eraill Gwent yn ystod y cyfnod hwn.

O ran cyfraddau goroesi, gwelwyd tuedd at i lawr ar y cyfan ar gyfer awdurdodau lleol Gwent a Chymru gyfan yng nghanran y busnesau gweithredol sydd wedi goroesi ar ôl tair blynedd o fasnachu, tra aeth y ffigurau'n groes i'r duedd hon ym Mlaenau Gwent i raddau.

Drwy'r gweithgarwch ymgysylltu, sylwyd ar ganfyddiad ledled y rhanbarth bod prinder amlwg o ran busnesau lleol a redir gan bobl lleol. Credir bod seilwaith busnes wedi'i amgylchynu gan gadwyni masnachol mawr.

Awgrymodd ymatebwyr y gellid gwneud mwy i hybu twf busnesau lleol, er enghraifft hyrwyddo busnesau lleol drwy ddigwyddiadau cymunedol a gostwng ardrethi busnes ynghyd â chynyddu buddsoddiad. Hefyd, nododd rhai trigolion y gellid dechrau ar hyn drwy addysg, gan gynnal seminarau i bobl ifanc ynghylch manteision posibl dechrau busnesau lleol i gymunedau lleol.

5.2 Manwerthu a Hamdden

Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn cynnal y cynllun Rhyddhad Ardrethi ar gyfer Manwerthu, Hamdden a Lletygarwch (er enghraifft siopau, tafarndai a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai) ar gyfer talwyr ardrethi cymwys yn 2021-22. Nod y cynllun yw rhoi cymorth i eiddo cymwys a feddiennir drwy gynnig gostyngiad o 100% ar ardrethi annomestig eiddo i bob safle cymwys. Bydd y cynllun ar gael i bob talwr ardrethi cymwys sydd â gwerth ardrethol o £500,000 neu lai.

Sut caiff y cynllun ei weinyddu?

Awdurdodau lleol fydd yn penderfynu sut yr hoffent weinyddu'r cynllun er mwyn sicrhau bod cynifer o fusnesau â phosibl yn manteisio arno a bod cyn lleied â phosibl o faich gweinyddol ar dalwyr ardrethi a staff awdurdodau lleol.

Pa eiddo fydd yn elwa ar y rhyddhad?

Eiddo a feddiennir yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch fydd yn elwa ar y rhyddhad hwn – er enghraifft siopau, tafarndai a bwytai, campfeydd, lleoliadau perfformio a gwestai ledled Cymru.

Dylid rhoi'r rhyddhad i bob busnes cymwys ar ffurf gostyngiad ar ei fil ardrethi yn seiliedig ar feddiannaeth rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

Ystyriaethau eraill

Gan mai yn ôl disgresiwn y caiff y rhyddhad ei roi, gall awdurdodau lleol ddewis peidio â rhoi'r rhyddhad os byddant o'r farn bod hynny'n briodol, er enghraifft pe bai rhoi'r rhyddhad yn mynd yn groes i amcanion ehangach yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal leol.

Mae'n bosibl y bydd talwyr ardrethi o'r farn eu bod wedi gallu parhau i fasnachu ar lefel sylweddol yn ystod cyfyngiadau'r Coronafeirws ac felly'n dymuno peidio â derbyn y rhyddhad.

Faint o ryddhad fydd ar gael?

Cyfanswm y rhyddhad a ariennir a fydd ar gael ar gyfer pob eiddo o dan y cynllun hwn ar gyfer 2021-22 yw 100% o'r bil sy'n weddill, ar ôl i bob math o ryddhad gorfodol a rhyddhad disgresiynol arall a ariennir gan grantiau adran 31 gael eu cymhwyso⁵³.

Yn ystod proses ymgysylltu â thrigolion Gwent, nododd rhai ohonynt fod amrywiaeth o fusnesau yn bwysig i'w llesiant a'u gallu i fyw bywyd hapus. Pwysleisiwyd nifer o weithiau bod angen adfywio canol trefi.

Nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr fod diffyg amrywiaeth o fewn busnesau. Er mwyn gwella seilwaith, awgrymodd trigolion y dylid cyflwyno mwy o fusnesau megis siopau cigydd a siopau papurau newydd wedi'u lleoli yn agos at lyfrgelloedd a gwasanaethau cyhoeddus eraill.

5.3 Twristiaeth

Mae twristiaeth yn chwarae rhan bwysig yn economi Gwent. Cyn effaith negyddol ddifrifol iawn pandemig COVID-19 yn 2020, bu twf sylweddol mewn gwariant twristiaeth ledled y rhanbarth. Yng Nghymru yn gyffredinol, twristiaeth oedd un o'r diwydiannau a oedd yn tyfu gyflymaf, ac roedd hyn i'w weld yn y duedd at i fyny yng Ngwent. Fodd bynnag, roedd effaith COVID-19 yn ddinistriol i'r sector ledled Gwent, Cymru a'r DU yn 2020, a bu lleihad sylweddol mewn refeniw twristiaeth.

Mae'r pum awdurdod lleol yng Ngwent yn defnyddio data STEAM, sef monitor gweithgarwch economaidd cadarn, i asesu gwerth twristiaeth yn eu hardaloedd.⁵⁴ Mae STEAM yn dangos bod 10.6 miliwn o ymwelwyr wedi dod i Went yn 2019, cyn y pandemig, gan gynhyrchu mwy na £974 miliwn i'r economi leol. Rhwng 2015 a 2019, bu twf o bron i 18% mewn refeniw twristiaeth yng Ngwent, sy'n cymharu'n ffafriol â tharged twf o 10% rhwng 2013 a 2020 ar gyfer Cymru gyfan.

Yn 2020, bu lleihad sylweddol yng nghyfraniad economaidd twristiaeth yng Ngwent, i £297 m (70% yn llai na 2019) oherwydd y pandemig. Lleihaodd gyfanswm nifer yr ymwelwyr i 3,223m (70% yn llai na 2019), a lleihaodd nifer y swyddi FTE a gefnogir gan wariant twristiaeth uniongyrchol i 5,112 (52% yn llai na 2019).

Effaith economaidd twristiaeth £M 2020					
	2015	2019	2020	% y newid 2015-2019	% y newid 2019-2020
Blaenau Gwent	49.15	62.51	19.81	27%	-68%
Caerffili	135.40	137.69	28.30	2%	-79%
Sir Fynwy	212.37	251.57	81.16	19%	-68%
Casnewydd	351.32	440.53	148.76	25%	-66%
Torfaen	79.36	82.44	19.00	4%	-77%
Gwent	827.59	974.73	297.04	18%	-70%

Ffigur 36 Effaith Economaidd Twristiaeth yng Ngwent 2015–2020

Nifer yr ymwelwyr – Cyfanswm mewn miloedd					
	2015	2019	2020	% y newid 2015-2019	% y newid 2019-2020
Blaenau Gwent	676	744	259	10%	-65%
Caerffili	1,774	1,809	299	2%	-83%
Sir Fynwy	2,190	2,284	536	4%	-77%
Casnewydd	3,042	4,674	1,917	54%	-59%
Torfaen	1,058	1,084	211	2%	-81%
Gwent	8,739	10,596	3,223	21%	-70%

Ffigur 37 Niferoedd ymwelwyr (cyfanswm) yng Ngwent 2015–2020

Nifer yr ymwelwyr sy'n aros, mewn miloedd					
	2015	2019	2020	% y newid 2015-2019	% y newid 2019-2020
Blaenau Gwent	138	169	46	28%	-73%
Caerffili	392	388	97	1%	-75%
Sir Fynwy	494	559	195	22%	-65%
Casnewydd	720	794	214	10%	-73%
Torfaen	216	220	57	5%	-74%
Gwent	1,960	2,131	610	12%	-71%

Ffigur 38 Niferoedd Ymwelwyr (sy'n aros) yng Ngwent 2015–2020

Diwrnodau ymwelwyr – Cyfanswm mewn miloedd					
	2015	2019	2020	% y newid 2015-2019	% y newid 2019-2020
Blaenau Gwent	864	993	330	15%	-67%
Caerffili	2,305	2,354	432	2%	-82%
Sir Fynwy	2,954	3,265	920	11%	-72%
Casnewydd	3,872	5,578	2,198	44%	-61%
Torfaen	1,315	1,359	282	3%	-79%
Gwent	11,310	13,549	4,161	20%	-69%

Ffigur 39 Diwrnodau Ymwelwyr yng Ngwent 2015–2020

Er bod twristiaeth yn bwysig ym mhob rhan o Went, mae o'r pwys mwyaf yng Nghasnewydd, lle y rhoddir ffocws ar dwristiaeth busnes o werth mawr, ac yn Sir Fynwy, sef cyrchfan hamdden sefydledig lle mae twristiaeth yn helpu i arallgyfeirio'r economi wledig. Yng Nghasnewydd, gwelwyd cynnydd o 25% mewn termau real mewn refeniw twristiaeth rhwng 2015 a 2019, wedyn lleihad o 66% yn 2020. (£441m yn 2019; £149m yn 2020). Bu cynnydd o 19% yn refeniw twristiaeth Sir Fynwy rhwng 2015 a 2019, wedyn lleihad o 68% yn 2020 (£252m yn 2019; £81m yn 2020).

Mae'r refeniw twristiaeth a'r ffigurau ymwelwyr ar gyfer pob un o'r pum awdurdod lleol yng Ngwent i'w gweld isod. Ym Mlaenau Gwent y gwelwyd y twf canrannol mwyaf rhwng 2015 a 2019 (27%) ond mae twristiaeth yn chwarae rhan lai yn yr economi leol yma na mewn rhannau eraill o Went. Yng Nghaerffili a Thorfaen y gwelwyd y lleihad mwyaf mewn refeniw twristiaeth yng Nghymru rhwng 2019 a 2020, sef -79% yng Nghaerffili a -77% yn Nhorfaen.

Gwnaeth cyfyngiadau iechyd y cyhoedd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r newidiadau i ymddygiad pobl o ganlyniad i bandemig COVID-19 gyfraniad sylweddol at y crebachiad economaidd yng Nghymru. Teimlwyd yr effaith fwyaf yn y sectorau hynny nad oeddent yn gallu gweithredu yn ystod y cyfnodau o gyfyngiadau symud, megis llety a bwyd. Gwelwyd cynnydd mewn gweithgarwch ym maes twristiaeth yn ystod haf 2021 ond bydd y cyfyngiadau cynharach wedi cael effaith andwyol ar broffidioldeb llawer o fusnesau, a bydd yr effeithiau economaidd wedi cael effaith sylweddol ar lesiant gweithwyr yn y sector hwn.

Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn a Gefnogir gan Dwristiaeth

Yn union fel y bu cynnydd mewn refeniw twristiaeth yng Ngwent rhwng 2015 a 2019, bu cynnydd hefyd yn nifer y swyddi cyfwerth ag amser llawn (FTE). Yn 2019, roedd 10,572 o swyddi FTE yn cael eu cefnogi gan dwristiaeth yng Ngwent (7,604 o swyddi FTE uniongyrchol a 2,968 o swyddi anuniongyrchol). Mae hyn yn gyfwerth â chynnydd o 16% o gymharu â 2015 yn nifer yr holl swyddi FTE a gefnogir gan dwristiaeth, gyda chynnydd sylweddol yng Nghasnewydd, Sir Fynwy a Blaenau Gwent. Fodd bynnag, yn yr un modd â'r lleihad mewn refeniw twristiaeth yn 2020, bu lleihad hefyd yn nifer y swyddi FTE a gefnogir gan dwristiaeth. Rhwng 2019 a 2020, bu lleihad o 52% yn nifer y swyddi FTE a gefnogir gan dwristiaeth ledled Gwent.

Swyddi FTE a gefnogir gan wariant twristiaeth (uniongyrchol ac anuniongyrchol)					
	2015	2019	2020	% y newid 2015-2019	% y newid 2019-2020
Blaenau Gwent	582	730	372	26%	-49%
Caerffili	1,599	1,626	466	2%	-71%
Sir Fynwy	2,744	3,119	1,614	14%	-48%
Casnewydd	3,326	4,172	2,359	25%	-43%
Torfaen	906	925	301	2%	-67%
Gwent	9,157	10,572	5,112	15%	-52%

Ffigur 40 Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn a gefnogir gan wariant twristiaeth yng Ngwent 2015-2020

5.4 Cryfderau cymunedau ac atyniadau i dwristiaid

Mae gan Went gymysgedd o harddwch naturiol, atyniadau treftadaeth o safon uchel, cyfleoedd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau yn yr awyr agored, gŵyl fwyd glodfawr yn y Fenni a seilwaith twristiaeth busnes sy'n tyfu.

Cyn y pandemig, roedd y sector twristiaeth yn cynnig cryn dipyn o botensial ar gyfer twf parhaus yng Ngwent, yn arbennig, gyda llety newydd yn ymuno â'r sector er mwyn ateb y galw a oedd yn cael ei ragweld yn sgil agor Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru yng Nghasnewydd ac enw da cynyddol yr ardal am gynnal cynadleddau, cyfarfodydd a theithiau cymelliadol.

Mae Dyffryn Gwy a Dyffryn Wysg yn ardal boblogaidd ar gyfer teithiau hamdden a gwyliau byr, gyda chyfle i ledaenu'r manteision ymhellach i dwristiaid Gwent, gan gynnwys atyniadau mewn ardaloedd eraill fel rhan o'u harhosiad.

Mae'r potensial a oedd gan dwristiaeth cyn y pandemig i fod o fudd i bob rhan o Went i'w weld yng nghynnydd twristiaeth mewn ardaloedd fel Blaenau Gwent a Thorfaen rhwng 2015 a 2019. Fodd bynnag, mae buddsoddiad yn y cynnyrch twristiaeth yn parhau. Er enghraifft, yng Nghasnewydd mae cyllid treftadaeth y loteri yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu Pont Gludo'r ddinas yn atyniad arwyddocaol, gyda chyfleusterau gwell i ymwelwyr.

5.5 Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Cydweithrediad rhwng y 10 awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o sbarduno twf rhanbarthol cynaliadwy yw Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Mae'r Fargen yn cynnwys 10 ardal awdurdod lleol yn Ne-ddwyrain Cymru: pum awdurdod lleol Gwent, a Phen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.

Mae gan y Fargen gronfa fuddsoddi gwerth £1.3bn, ac mae'n un o brif ddulliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ar gyfer gwireddu ei uchelgeisiau twf a'i flaenoriaethau strategol. Gan adeiladau ar gryfderau sectorol, sylfaen sgiliau ac arbenigedd academiaidd y rhanbarth, gwneir buddsoddiad sy'n targedu sgiliau, seilwaith, prosiectau arloesol a allai ehangu'n gyflym a sectorau a busnesau mewn diwydiannau â blaenoriaeth a fydd yn bwysig i ffyniant y rhanbarth dros y 10–20 mlynedd nesaf.

Drwy gydol oes y Fargen, a fydd yn para 20 mlynedd, y canlyniadau y dymunir eu cyflawni drwy ei rhaglenni ymyriadau (y caiff gwerth £734m ohonynt ei neilltuo ar gyfer datblygiadau'r Metro, gan adael £495m a fydd ar gael drwy gronfa fuddsoddi ehangach) yw creu 25,000 o swyddi newydd, cynhyrchu gwerth £4bn ychwanegol o fuddsoddiad gan y sector preifat yn y rhanbarth a chynyddu gwerth ychwanegol gros 5%.⁵⁵

Nodir wyth sector â blaenoriaeth o fewn Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n cynnig cryfderau a manteision cystadleuol cymharol i'r rhanbarth, sef:

- Lled-ddargludyddion Cyfansawdd
- Technoleg Ariannol
- Seiberddiogelwch a Dadansoddeg
- Deallusrwydd Artiffisial
- Yr Economi Greadigol
- Gwyddorau Bywyd
- Peirianeg Trafnidiaeth
- Ynni a'r Amgylchedd

Mae cryn dipyn o adfywio a buddsoddi wedi bod yn y rhanbarth dros y degawdau diwethaf er mwyn ailddatblygu ardaloedd diwydiannol trwm a chreu parciau busnes, tai a mentrau hamdden newydd. Ymhlith y prosiectau sydd wedi cael eu cynnal mae adfywio Bae Caerdydd ac ailgyflwyno gwasanaeth cludo teithwyr ar y rheilffyrdd i Lynebwy, yn ogystal â gwaith sylweddol ar seilwaith ffyrdd.⁵⁶

Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent yn cynnwys pump o'r 10 ardal awdurdod lleol sy'n rhan o'r Fargen Ddinesig, ac mae Gwent yn cyfrif am draean o boblogaeth y rhanbarth. Nod y Fargen yw cadw pobl wedi'u cysylltu â'i gilydd, cadw busnesau'n gystadleuol, a chadw cymunedau'n gryf ledled De-ddwyrain Cymru. Mae gan y rhanbarth ddiwydiant gweithgynhyrchu cryf drwyddo draw, fel rhannau o Went, a hefyd gwelwyd cynnydd amlwg yn nifer y bobl sy'n gweithio ym meysydd bancio, cyllid ac yswiriant rhwng 2015 a 2018, a hynny'n bennaf o ganlyniad i gynnydd sylweddol yng Nghaerffili (+32%), Torfaen (27.9%) a Chasnewydd (27.9%).⁵⁷

Mae'r dull sy'n cael ei ddilyn i weinyddu'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach gwerth £495m yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion arweiniol sy'n cynnwys rheoli cronfeydd buddsoddi a chydfuddsoddi mewn ffordd fytholwyrdd. Y nod yw gwella'r amgylchedd busnes ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan greu ecosystemau cyfoethog sy'n ymestyn ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu sectorau allweddol yn yr economi, a pherfformiad Prifddinas-Ranbarth Caerdydd o gymharu â dinasoedd a rhanbarthau eraill yn y DU ac yn rhyngwladol.⁵⁸ Y nod eithaf yw ceisio sicrhau mai Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw'r rhanbarth mwyaf buddsoddiadwy yn y DU, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar lesiant economaidd ledled Gwent.

5.6 Safleoedd Datblygu Strategol

Ym mis Mawrth 2021, gwnaeth Cabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd nifer o benderfyniadau allweddol er mwyn cynnal ffocws a momentwm ar ymyriadau a phrosiectau newydd a fydd yn parhau i roi hwb i economi de-ddwyrain Cymru yn sgil COVID-19.

Bydd **Cronfa Fuddsoddi newydd y cytunwyd arni ar gyfer Safleoedd Strategol** yn helpu i gyflawni Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r blaenoriaethau o ran COVID-19 drwy ddarparu cyllid ar gamau cynnar ar gyfer datblygu safleoedd newydd a safleoedd cyflogaeth sy'n galluogi busnesau newydd a busnesau sydd eisoes yn gweithredu i ehangu a buddsoddi er budd y rhanbarth. Os byddant yn llwyddiannus, rhagwelir y bydd y cynlluniau ar y rhestr fer yn codi 2,768 o gartrefi ledled y rhanbarth gan greu 3360 o swyddi a denu gwerth £530m o fuddsoddiad preifat ar yr un pryd.

Cafodd Rhaglen Metro a Mwy ei hailstrwythuro a'i hymestyn am flwyddyn i sicrhau y gall gyflawni ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Caiff y chwe phrosiect canlynol eu hymestyn am flwyddyn ar ben y cyfnod gwreiddiol o dair blynedd, a disgwylir iddynt gyflawni'n llawn erbyn mis Mawrth 2023:

- Parcio a Theithio Dociau'r Barri – Bro Morgannwg
- Coridor Blaenoriaeth i Fysiau Dwyrain Caerdydd – Caerdydd
- Cyfnewidfa Porth – Rhondda Cynon Taf
- Parcio a Theithio Cyffordd Twnnel Hafren – Sir Fynwy
- Parcio a Theithio Gorsaf Pont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd – Torfaen
- Parcio a Theithio y Pîl / Terminws Bysiau Porthcawl / Pont Croesfan Penbrysg (Pen-coed) – Pen-y-bont ar Ogwr

Bydd y pedwar prosiect arall, sy'n fentrau mwy o faint a llawer mwy hirdymor, ac sy'n dibynnu ar ymyriadau y tu hwnt i reolaeth rhaglen Metro a Mwy, hefyd yn cael eu hymestyn am 12 mis ac yn parhau i gael eu datblygu nes y gallant ddenu cyllid o raglenni eraill fel y gellir eu cyflawni. Darperir cyllid ar gyfer y cynlluniau hyn tan fis Mawrth 2023.

- Coridor Blaenoriaeth i Fysiau Casnewydd–Caerdydd (neu gynllun cyfatebol) – Casnewydd
- Integreiddio Gwasanaethau Rheilffyrdd / Bysiau Merthyr Tudful – Merthyr Tudful
- Cyfnewidfa Abertyleri (neu gynllun cyfatebol) – Blaenau Gwent
- Cyfnewidfa Caerffili – Caerffili

Cynllun seilwaith cerbydau trydan ar gyfer tacsis a gyflawnwyd yn ystod haf 2021 – dyfarnwyd contract i SWARCO i osod 34 o bwyntiau gwefru ar 31 o safleoedd ledled 10 ardal awdurdod lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y pwyntiau gwefru hyn yn galluogi gyrwyr tacsis i wefru eu cerbydau, gan annog mwy o yrrwyr i brynu cerbydau trydan yn y diwydiant tacsis ledled De-ddwyrain Cymru er mwyn helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o ddim allyriadau o dacsis erbyn 2028.

Cynllun “profi cyn prynu” ar gyfer Tacsis ULEV i annog proses bontio a lansiwyd ym mis Tachwedd 2021 – 44 tacsis Nissan Dynamo er mwyn i yrrwyr / gweithredwyr tacsis gael cyfle i'w profi cyn eu prynu, am fis fesul gyrrwr. Bydd y cynllun treialu ar waith am dair blynedd.

Cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran darganfod safleoedd priodol i ehangu'r seilwaith gwefru – mae 112 o safleoedd wedi cael eu dewis a'u prasio er mwyn darparu seilwaith gwefru at ddefnydd y cyhoedd ledled y rhanbarth, gan gynnwys lleoliadau megis ar y stryd, meysydd parcio cyhoeddus a hybiau trafniadaeth.

Gweminar addysgol ar dacsis ar 29 Mawrth – er mwyn rhoi cyfle i yrrwyr/gweithredwyr tacsis ymgysylltu â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd i drafod cyfleoedd a systemau ar gyfer cynorthwyo'r broses bontio⁵⁹.

5.7 Ynni adnewyddadwy a datgarboneiddio

Yn 2021, rydym wedi gweld sut y gall problemau gyda chyflenwad ynni a chynnydd ym mhris cyfanwerthu nwy effeithio ar fusnesau – yn enwedig yn y sector bwyd.

Mae angen cyflenwadau ynni sicr ar fusnesau yng Ngwent, nawr ac yn y dyfodol.

Nodir bod ynni a'r amgylchedd yn sector â blaenoriaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd sydd â'r potensial i greu ffyniant yn y rhanbarth dros y 10 – 20 mlynedd nesaf⁶⁰. Yn ogystal â lleihau carbon, gall cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn lleol greu swyddi lleol, a gall prosiectau ynni cymunedol gynhyrchu incwm defnyddiol i'w fuddsoddi yn ôl mewn cymunedau. Dylai unrhyw brosiectau ynni adnewyddadwy o bwys cenedlaethol sydd wedi'u lleoli yn yr ardal sicrhau diddordeb a chefnogaeth gan y cymunedau lleol cyfagos.

Mae prosiectau cynhyrchu ynni adnewyddadwy / carbon isel sydd eisoes ar waith ac sydd yn yr arfaeth ar gyfer Gwent yn cyfrif am tua 10% o gyfanswm y galw am ynni ar hyn o bryd ac

erbyn 2033 gallai'r rhanbarth, mewn egwyddor, gynhyrchu mwy na 100% o'r galw am ynni ar hyn o bryd a mwy na phum gwaith yn fwy na'r galw am drydan ar hyn o bryd.⁶¹

Mae astudiaeth ddiweddar wedi nodi y gellid cynyddu gweithgarwch cynhyrchu ynni adnewyddadwy / carbon isel yng Ngwent drwy gymysgedd o'r technolegau canlynol⁶²:

- **Gwynt** – ceir potensial i gynhyrchu digon o drydan i bweru mwy na 300,000 o gartrefi. Mae'r capasiti cynhyrchu posibl yn amrywio ledled Gwent, ac mae'r ardaloedd ucheldirol ar y ffiniau rhwng Torfaen, Blaenau Gwent a Chaerffili yn adnoddau allweddol.
- **Panelli solar wedi'u gosod ar y ddaear** – Ledled Gwent i gyd, ceir potensial i gynhyrchu digon o drydan i bweru'r hyn sy'n gyfwerth â mwy na 4 miliwn o gartrefi. O ystyried yr arwynebedd tir mwy, nodwyd mai Sir Fynwy wledig, mewn egwyddor, sydd â'r ardaloedd a allai fod fwyaf addas ar gyfer paneli solar wedi'u gosod ar y ddaear.
- **Biomass** – Ledled Gwent, mae digon o adnoddau biomass i gyflenwi Gorsaf Gwres a Phŵer Cyfunedig gonfensiynol (tyrbin stêm). Pe gellid tyfu a phrosesu mwy o danwydd yn lleol, mae'n bosibl y gellid cynhyrchu mwy o bŵer o biomass.
- **Ynni dŵr** – Mae'r potensial ar gyfer ynni dŵr yn y rhanbarth yn gymharol fach, ond gallai gyfrannu at ateb ynni cyfannol o hyd.
- **Panelli solar pen tŷ** – Nodir mai yng Nghaerffili y mae'r potensial mwyaf mewn egwyddor o ran paneli ffotofoltäig (PV) pen tŷ am mai hon yw'r ardal adeiledig fwyaf ond, ar hyn o bryd, Sir Fynwy sydd â'r mwyaf o gapasiti PV pen tŷ wedi'i osod.

Nid yw'n bosibl rhoi'r holl botensial o ran ynni adnewyddadwy a nodir yng Ngwent ar waith yn gynt am fod ein hasedau amgylcheddol hefyd yn darparu gwasanaethau gwerthfawr eraill sy'n cyfrannu at ein llesiant ac y gall fod yn bwysig eu diogelu a'u cynnal. Hefyd, mae terfynau lleol i'n rhwydwaith trydan o ran faint o ynni y gellir ei gynhyrchu.


Mae strategaeth ynni ranbarthol hefyd wedi cael ei datblygu ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd er mwyn pennu blaenoriaethau ranbarthol ar gyfer ynni. Yn ogystal â hynny, mae Llywodraeth Cymru am weld mwy o waith cynllunio ynni yn lleol sy'n edrych ar y system ynni gyfan – gan gynnwys cynhyrchu, storio a phatrymau defnydd, ein hadeiladau a'r ffordd y cânt eu gwresogi, sut mae diwydiant a busnesau'n defnyddio ynni ac yn cludo deunyddiau crai, nwyddau a gwasanaethau, a sut mae pobl yn teithio. Mae Casnewydd eisoes yn cymryd rhan mewn cynllun peilot cynllunio ynni a bydd yn dysgu gwersi y gellir eu rhannu â gweddill Gwent.

Bydd Cynllun Ynni Ardal Leol sy'n ystyried y system ynni gyfan – gwres, pŵer a thrafnidiaeth – yn helpu i sicrhau y bydd gan genedlaethau'r dyfodol a fydd yn byw yng Ngwent ddigon o ynni i ddiwallu ei hanghenion.

6. Patrymau gwaith


Mae lleoliad gwaith yn seiliedig ar batrwm gwaith arferol yr ymatebydd pe na bai cyfyngiadau'r Coronafeirws ar waith. Felly, nid yw'r data ar gyfer 2020 yn adlewyrchu'r patrymau cymudo gwirioneddol a welwyd yn ystod y pandemig. Mae Ffigur 41 yn dangos y ganran o'r trigolion sy'n gweithio sy'n cymudo allan o'r ardal lle y maent yn byw ynddi.

6.1 Cymudo



Ffigur 41 Y ganran o'r trigolion sy'n gweithio sy'n byw ym mhob awdurdod lleol sy'n cymudo allan o'r ardal, 2020⁶³

Mae'r ganran o'r trigolion sy'n gweithio sy'n cymudo allan o'r ardal y maent yn byw ynddi yn amrywio o 38.0% yng Nghasnewydd i 51.6% ym Mlaenau Gwent, sef y ganran uchaf ond un yng Nghymru, sydd ond fymryn yn is na chyfradd Bro Morgannwg, sef 51.7%. Mae mwy o drigolion Gwent sy'n gweithio yn cymuno allan o'u hawdurdod lleol na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cyfartaledd awdurdodau lleol Cymru yw 33.4% o'r trigolion sy'n gweithio ond, yng Ngwent, y cyfartaledd yw 44%.



Ffigur 42 Y ganran o'r bobl sy'n gweithio ym mhob awdurdod lleol sy'n cymudo i mewn i'r ardal, 2020

Mae'r ganran o'r bobl sy'n gweithio ym mhob awdurdod lleol sy'n cymudo i mewn i'r ardal honno yn amrywio o 23.9% ym Mlaenau Gwent i 44.9% yng Nghasnewydd, sef y gyfradd uchaf yng Nghymru hefyd. Sir Fynwy sydd â'r gyfradd uchaf ond un yng Nghymru, sef 42.3%. Cyfartaledd awdurdodau lleol Cymru yw 27.4% (mwy na chwarter y bobl sy'n gweithio yn yr ardal) ond, yng Ngwent, y cyfartaledd yw 36.9%.

Patrymau cymudo manwl yng Nghymru fesul awdurdod lleol, 2020

Mae'r ymatebion ar gyfer lleoliad gwaith yn seiliedig ar batrwm gwaith arferol yr ymatebydd pe na bai cyfyngiadau'r Coronafeirws ar waith. Felly, nid yw'r data ar gyfer 2020 yn adlewyrchu'r patrymau cymudo gwirioneddol a welwyd yn ystod y pandemig. Mae Ffigur 43 yn dangos darlun manwl o batrymau cymudo ar gyfer gweithwyr sy'n byw ym mhob awdurdod lleol.

Awdurdod Lleol	Blaenau Gwent	Caerffili	Caerdydd	Merthyr Tudful	Sir Fynwy	Casnewydd	Rhondda Cynon Taf	Torfaen	Cymru	Pob un y tu allan i Gymru
Blaenau Gwent	48%	10%	4%	5%	8%	4%	-	7%	96%	4%
Caerffili	-	53%	20%	-	-	2%	4%	2%	97%	3%
Sir Fynwy	2%	2%	4%	-	57%	9%	-	3%	79%	21%
Casnewydd	-	-	12%	-	4%	62%	-	5%	87%	13%
Torfaen	-	2%	8%	-	7%	15%	-	55%	93%	7%

Ffigur 43 Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, 2020⁶⁴ (Noder nad yw cyfanswm pob awdurdod lleol yn hafal i gyfanswm Cymru oherwydd y defnydd o ddata sampl ac am na chaiff gwerthoedd isel eu cofnodi)


Mae canran gymharol uchel o weithwyr o Gasnewydd (62%) a Sir Fynwy (57%) yn gweithio yn yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddo, ac mae nifer sylweddol yn gweithio y tu allan i Gymru hefyd, sef 13% yng Nghasnewydd a 21% yn Sir Fynwy. Mae mwy o weithwyr Blaenau Gwent yn gweithio y tu allan i'r awdurdod lleol (52%) nag ynddo. Mae nifer sylweddol yn cymudo i Gaerdydd a Chasnewydd o ardaloedd eraill, yn enwedig Caerffili a Thorfaen.

Mae trafndiaeth integredig yn fater trawsbynciol sy'n cael effaith sylweddol ar lesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl ledled Gwent. Fel y mae Ffigur 43 yn ei ddangos, mae rhai o drigolion Gwent yn teithio y tu allan i ranbarth Gwent i weithio am ei bod yn aml yn haws cyrraedd lleoedd fel Caerdydd ar drafndiaeth gyhoeddus na rhannau eraill o Went. Mae'r llwybr newydd o'r dwyrain i'r gorllewin ar draws Flaenau'r Cymoedd yn cynnig cyfle ar gyfer datblygiad economaidd gogledd Gwent, gan ddenu busnesau o ganolbarth Lloegr, de-orllewin Lloegr a rhannau eraill o Gymru.


6.2 Sut rydym yn cymudo

Cymru sydd ag un o'r lefel uchaf o weithwyr sydd fel arfer yn teithio i'r gwaith mewn car, sef 80%, a'r Alban sydd â'r isaf, sef 70%. Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael yn dangos bod 80% o'r gweithwyr sy'n byw yng Nghymru wedi teithio i'r gwaith mewn car rhwng mis Hydref

a mis Rhagfyr 2019, sydd gryn dipyn yn uwch na'r ganran yn Lloegr, sef 67%, a'r Alban, sef 70%. Er bod canran y bobl a gerddodd i'r gwaith yng Nghymru, sef tua 10%, yn debyg i Loegr a'r Alban, teithiodd llawer llai o bobl ar fws a thrên. Noder nad oes data ar gael ar hyn o bryd ar lefel awdurdod lleol.



Ffigur 44 Canran y gweithwyr sydd fel arfer yn teithio i'r gwaith mewn car yn ôl rhanbarth y gweithle, Prydain Fawr, 2018⁶⁵




Ffigur 45 Dull arferol o deithio i'r gwaith yn ôl rhanbarth preswyllo: Prydain Fawr, o fis Hydref i fis Rhagfyr 2019⁶⁶

6.3 Effaith pandemig COVID-19 ar fan gwaith

Mae'r Arolwg Blynnyddol o'r Boblogaeth yn gofyn i bobl ble mae eu prif fan gwaith "yn ystod cyfnod arferol", felly mae'n bosibl na fydd pob ymateb yn adlewyrchu patrymau gwaith yn ystod pandemig y Coronafeirws (COVID-19). Ar sail y tri newidyn yn yr Arolwg, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi diffinio pedwar statws gweithio gartref:

- **Yn bennaf** – y rhai sy'n dweud mai eu prif fan gwaith yw “yn eu cartref eu hunain” yn hytrach na “mae'r cartref yn fan cychwyn”, “ar yr un safle a'r cartref” neu “mewn lle hollol wahanol” (swyddfeydd, ffatrioedd ac ati)
- **Yn ddiweddar** – y rhai nad ydynt yn gweithio gartref ‘yn bennaf’, ond a ddywedodd eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith gartref yn ystod yr wythnos dan sylw
- **Yn achlysurol** – y rhai nad ydynt yn gweithio gartref ‘yn bennaf’, ac na ddywedodd eu bod wedi gwneud rhywfaint o waith gartref yn ystod yr wythnos dan sylw, ond sy'n dweud eu bod yn gweithio gartref “weithiau”
- **Byth** – unrhyw rai nad ydynt yn perthyn i'r un o'r grwpiau uchod



Ffigur 46 Y gyfran o'r gweithwyr a gwblhaodd yr arolwg sy'n gweithio gartref, 2020⁶⁷


Mae rhai o'r gwerthoedd yn seiliedig ar sampl fach, a all arwain at amcangyfrifon llai manwl gywir, felly dylid bod yn ofalus wrth eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'r gwerthoedd ar gyfer 'Byth yn gweithio gartref' ac, ar wahân i Flaenau Gwent, 'yn gweithio gartref yn bennaf', i'w gweld fel amcangyfrifon manwl gywir.

Sir Fynwy sydd â'r ganran uchaf yng Ngwent ac yng Nghymru o bobl sy'n dweud mai eu prif fan gwaith yw 'yn eu cartref eu hunain', sef 9.7%, o gymharu â chyfartaledd Gwent, sef 6.1% a chyfradd y DU, sef 8.4%.

Caerffili a Sir Fynwy sydd â'r ganran uchaf yng Ngwent o bobl sy'n dweud eu bod yn gwneud 'rhywfaint o waith gartref', sef 37%, a'r canrannau hyn yw'r drydedd a'r bedwaredd uchaf yng Nghymru. Mae hyn o gymharu â chyfartaledd Gwent, sef 31%, a chyfradd y DU, sef 36%. Torfaen sydd â'r ganran isaf yng Ngwent o bobl sy'n dweud eu bod yn gwneud 'rhywfaint o waith gartref', sef 21%, a'r gyfradd hon yw'r drydedd isaf yng Nghymru.

Yn y DU yn 2020, dywedodd 35.9% o weithwyr eu bod yn gwneud rhywfaint o waith gartref – cynnydd o 9.4 y cant o gymharu â 2019. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r mesurau “aros gartref” a gyflwynwyd gan y llywodraeth yn sgil COVID-19 ym mis Mawrth 2020, a'r polisi

parhaus i annog gweithwyr yng Nghymru i weithio gartref lle roedd modd, er mwyn helpu i atal y feirws rhag lledaenu mewn swyddfeydd.



Ffigur 47 Canran y gweithwyr a wnaeth rywfaint o waith gartref, yn ôl NUTS, y DU, 2019 o gymharu â 2020.

Yn y DU yn 2020, dywedodd 35.9% o weithwyr eu bod yn gwneud rhywfaint o waith gartref – cynnydd o 9.4 y cant o gymharu â 2019. Gellir priodoli hyn i raddau helaeth i'r mesurau “aros gartref” a gyflwynwyd gan y llywodraeth yn sgil COVID-19 ym mis Mawrth 2020.

Yn y DU yn 2020, y diwydiant â'r gyfran uchaf o unrhyw fath o weithio gartref oedd gwybodaeth a chyfathrebu, lle roedd 62.0% o'r gweithwyr wedi gweithio gartref yn bennaf, yn ddiweddar neu'n achlysurol. Y diwydiant nesaf oedd gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol (56.1%) a gwasanaethau ariannol (54.2%). Mewn cyferbyniad â hynny, y diwydiannau â'r cyfraddau isaf o weithio gartref ar unrhyw lefel oedd llety a gwasanaethau bwyd (12.3%), trafndiaeth a storio (18.6%) a manwerthu (19.7%). Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn rhwng diwydiannau yw'r gwahaniaethau yn y galw am weithio gartref a'r cyfleoedd i wneud hynny.

Yn y DU, rhwng 2011 a 2020, cynyddodd y tueddiad i weithio gartref yn unol â chyrhaeddiad addysgol. Er enghraifft, yn 2020, gwnaeth 46.9% o weithwyr â chymhwyster ar lefel gradd rywfaint o waith gartref, o gymharu ag 13.9% o weithwyr heb ddim cymwysterau.

Yn sicr, mae COVID-19 wedi newid y ffordd rydym yn byw, gweithio, teithio a chymdeithasu, gyda llawer o gyflogwyr a gweithwyr yng Ngwent yn dilyn mwy o arferion gwaith cyfunol ac ystwyth, neu'n gweithio gartref drwy'r amser. Mae'r cynnydd mewn gweithio ystwyth neu

weithio gartref yn golygu bod pobl yn cymudo'n wahanol ac yn llai aml, sy'n lleihau costau cymudo i weithwyr yng Ngwent ac a all gael effaith gadarnhaol ar lesiant amgylcheddol a chymdeithasol. Gall y manteision i economïau, busnesau, unigolion a'r amgylchedd yn lleol gynnwys:-

- lleihau amser a chostau teithio
- mwy o hyblygrwydd a gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- cynnydd mewn cynhyrchiant
- llai o draffig a llygredd aer a sŵn, yn enwedig ar adegau prysur
- cyfleoedd gwaith i bobl mewn cymunedau ar gyrion trefi yng Ngwent, a chronfa fwy o weithwyr ar gael i gyflogwyr
- cyfle i ailddylunio ein trefni a chanol ein dinasoedd⁶⁸

Hoffai Llywodraeth bresennol Cymru weld model gweithleoedd lle y gall staff ddewis gweithio yn y swyddfa, gartref neu mewn hyb. Er y gall hyn arwain at fanteision, fel y rhai a amlinellir uchod, a all wella llesiant economaidd a chymdeithasol a chyfrannu at yr adferiad gwyrdd ar ôl COVID-19, mae pobl sy'n gweithio yn y swyddfa drwy'r amser yn gwario arian ar drafnidiaeth gyhoeddus ac mewn busnesau fel siopau a chaffis sy'n agos at eu man gwaith. Felly, gallai'r lleihad mewn masnach sy'n gysylltiedig â'r newid i ffwrdd oddi wrth weithio yn y swyddfa effeithio ar weithredwyr trafnidiaeth, canol trefi a'r stryd fawr ledled Gwent yn y tymor hir.

Mae'n bosibl y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn treulio llai o amser ac yn gwario llai o arian ar deithio i'r gwaith ac oddi yno, a allai arwain at well cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a mwy o gyfleoedd am swyddi o fewn ardal ddaearyddol ehangach, ond bydd angen gwell cefnogaeth ar economïau lleol sy'n ddibynnol ar fasnach y stryd fawr gan gymudwyr a gweithwyr swyddfeydd yn yr hirdymor o hyd.

Ar wahân i gymudo, wrth ystyried pa agweddau a fyddai'n gwella eu cymuned, cytunai rhai o drigolion Gwent y byddai gwasanaeth trafnidiaeth mwy hygyrch yn helpu i'w gwneud hi'n haws iddynt fanteisio ar amwynderau lleol.

Mae ble mae pobl yn byw yn cael effaith ar eu gallu i ddefnyddio'r system drafnidiaeth. Er bod y rhwydwaith ffyrdd yn agored i bawb sydd â char i'w ddefnyddio, mae'r gallu i ddefnyddio rhwydweithiau trafnidiaeth gyhoeddus yn dibynnu'n bennaf ar leoliad y cartref. Mae'r rhwydwaith bysiau'n cwmpasu ardal lawer ehangach na'r rhwydwaith rheilffyrdd, ond ceir amrywiadau rhanbarthol sylweddol ar gyfer bysiau a rheilffyrdd. Dim ond 13% o bobl yng Nghymru sy'n byw llai nag 800m i ffwrdd (ar droed) o orsaf drenau sydd ag o leiaf un trên bob awr. Mae hyn yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, o bumed o'r boblogaeth yn Ne-ddwyrain Cymru i ddim ond 1% yn y Canolbarth.⁶⁹

Nododd llawer o ymatebwyr i ymarfer ymgysylltu'r asesiad llesiant fod ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus yn wael oherwydd anghysondebau o ran prisiau ac amseru. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith trigolion Sir Fynwy a nododd (oherwydd natur wledig yr ardal) fod trafnidiaeth gyhoeddus yn anhygoel o anghyson a bod angen bod yn berchen ar gar. Roedd y trigolion yn awyddus i drafnidiaeth gyhoeddus ddod yn fwy fforddiadwy ac yn fwy

rheolaidd er mwyn helpu i ddarparu ar gyfer pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig ledled Gwent.

6.4 Effaith technoleg arloesol ar y gweithlu

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adroddiad ym mis Ionawr 2021 ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y gweithlu yn sgil y newid yn natur byd gwaith.⁷⁰ Negeseuon allweddol yr adroddiad yw:


1. Mae nifer o ffactorau, gan gynnwys pandemig COVID-19, cyfyngiadau cyllidebol a'r ymgyrch i wella cynhyrchiant, darparu gwasanaethau gan ddefnyddio technoleg, a disgwyliadau'r cyhoedd i wasanaethau gael eu darparu'n wahanol, yn arwain at gyflwyno technolegau arloesol yn y sector cyhoeddus.
2. Er mwyn helpu'r gweithlu i addasu i'r cynnydd yn y defnydd o dechnolegau newydd, mae arbenigwyr rhyngwladol yn cytuno y bydd angen i'r llywodraeth a'r sector cyhoeddus sicrhau bod mwy o hyfforddiant ar gael i feithrin y sgiliau perthnasol, mynd i'r afael â gwaith dylunio swyddi a chynllunio'r gweithlu, datblygu partneriaethau agos rhwng undebau a rheolwyr ar lefel sefydliadau ac ar lefel genedlaethol, a rhoi mesurau ar waith i ddiogelu rhag rhai o effeithiau negyddol technoleg newydd.
3. Roedd dadansoddiad Llywodraeth Cymru o dair astudiaeth achos o'r cyfnod cyn COVID-19 yn cyflwyno tystiolaeth o fanteision posibl technoleg arloesol o ran gwella bywyd gwaith pan ymgynghorir yn llawn â staff ynghylch ei chyflwyno a'i rhoi ar waith, a phryderon staff am gyflwyno technoleg arloesol.
4. At hynny, yn ystod y pandemig, mae Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol wedi casglu llawer o enghreifftiau ynghyd o arloesedd wrth ddarparu gwasanaethau. Mae'r rhain yn dangos bod gwasanaethau cyhoeddus wedi mynd ati'n gyflym i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn helpu i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd o bell a gwella prosesau mewnol.
5. Mae sefydliadau yng Nghymru wedi ymateb yn y ffyrdd canlynol i'r cynnydd cyffredinol yn y defnydd o dechnolegau newydd:
 - Mae undebau wedi pennu egwyddorion allweddol sy'n adeiladu ar y rhai sydd wedi'u cynnwys yn y cytundeb Partneriaeth a Rheoli Newid, neu'n ychwanegu atynt, ac maent yn cynnig y dylid eu mabwysiadu pan gaiff technoleg newydd ei chyflwyno
 - Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Prif Swyddogion Meddygol ym meysydd iechyd a llywodraeth leol ac wedi lansio Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
 - Mae arweinwyr iechyd a gofal cymdeithasol yn argymhell y dylid cynnwys cynllun gweithlu digidol yn eu strategaeth ddrafft ar gyfer y gweithlu
 - Mae Dirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth wedi cyhoeddi datganiad ar wreiddio trefniadau gweithio o bell
 - Yn rhyngwladol, mae partneriaid cymdeithasol Ewropeaidd wedi cyhoeddi cytundeb fframwaith ar ddigidoleiddio

6. Gan ystyried y materion hyn, ynghyd â safbwyntiau a chyngor uwch-swyddogion pob un o'r partneriaid cymdeithasol a gefnogodd y gwaith hwn, mae'r adroddiad yn argymhell y canlynol:

- Dylai partneriaid cymdeithasol ddatblygu a mabwysiadu cyfres o egwyddorion ynghylch digidoleiddio sy'n helpu i sicrhau bod staff ac undebau llafur yn cael eu cynnwys ac yr ymgynghorir â nhw pan gaiff methodolegau digidol a data newydd a thechnolegau newydd eu cyflwyno. Bydd yr egwyddorion yn gyson â'r cytundeb Partneriaeth a Rheoli Newid ac yn cynnwys pwysigrwydd ailddylunio swyddi a hyfforddiant wrth reoli unrhyw newid i rolau a disgwyliadau.
- Dylai Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ffurfio cydberthnasau er mwyn meithrin proses effeithiol o gyfnewid gwybodaeth rhwng partneriaid cymdeithasol a'r bartneriaeth o dri Phrif Swyddog Digidol, gyda phwyslais penodol ar faterion yn ymwneud â'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus
- Dylai Cyngor Partneriaeth y Gweithlu ymgysylltu â'r Hyb Gwybodaeth yn y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i rannu gwybodaeth ac arferion gorau rhwng partneriaid cymdeithasol a'r hyb mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r gweithlu gwasanaethau cyhoeddus fel bod profiadau o safbwynt undebau llafur a chyflogwyr yn ategu'r wybodaeth a gaiff ei chasglu a'i rhannu.

6.5 Mynediad i'r rhyngwrwd


Mae cwestiynau am fynediad i'r rhyngwrwd a defnydd personol o'r rhyngwrwd wedi cael eu gofyn yn Arolwg Cenedlaethol Cymru bob blwyddyn ers 2012-13. Mae ffigur 48 yn dangos cyfran y trigolion sydd â mynediad i'r rhyngwrwd yn y cartref.



Ffigur 48 Cyfran y trigolion sydd â mynediad i'r rhyngwrwd yn y cartref, 2019-2020⁷¹

Mae canran y bobl sydd â mynediad i'r rhyngwrwd yn y cartref yn amrywio o 84% ym Mlaenau Gwent i 92% yn Sir Fynwy a Chasnewydd. Cyfartaledd awdurdodau lleol Gwent yw 89%, a chyfartaledd Cymru yw 88%.

Cafodd cwestiynau newydd am weithgarwch pobl ar-lein a'u sgiliau digidol eu cyflwyno yn Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2017-18, a gofynnwyd y cwestiynau hyn eto yn 2018-19. Mae Ffigur 49 yn dangos cyfran y trigolion sy'n defnyddio'r rhyngwrwd, gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau a ddelir yn y llaw.



Ffigur 49 Cyfran y trigolion sy'n defnyddio'r rhyngwrwd (gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau a ddelir yn y llaw), 2019-2020

Mae canran y bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd (gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau a ddelir yn y llaw) yn amrywio o 86% ym Mlaenau Gwent i 94% yng Nghasnewydd. Cyfartaledd awdurdodau lleol Gwent yw 91%, a chyfartaledd Cymru yw 89%.

Cyflymder lawrlwytho'r rhyngwrwd ledled Gwent ar gyfartaledd yw 68.3mbps, sydd fymryn yn arafach na chyfartaledd Cymru, sef 69.5mbps. Mae cyflymderau lawrlwytho cyfartalog Gwent yn amrywio o 45.1mbps ym Mlaenau Gwent i 95.6mbps yng Nghasnewydd. Mae 8% o aelwydydd yng Ngwent yn cael cyflymderau rhyngwrwd o lai na 10mbps, sydd fymryn yn well na chyfartaledd Cymru, sef 9%. Ledled Gwent, mae'r ffigur hwn yn amrywio o 6% yng Nghasnewydd i 14% mewn rhannau o Sir Fynwy wledig.⁷²

Mae trigolion yn credu bod pobl mewn ardaloedd gwledig a'r genhedlaeth hŷn dan anfantais oherwydd band eang o ansawdd gwael, fel y dengys y ganran uwch o aelwydydd sy'n cael llai na 10mbps mewn rhannau o Sir Fynwy, a diffyg sgiliau digidol. Mae hyn yn cael effaith ar bobl sy'n llai hyderus wrth ddefnyddio llwyfannau digidol am eu bod yn llai tebygol o gael gwybod beth sydd ar gael yn eu cymuned leol.

Gallai mwy o fuddsoddiad mewn seilwaith helpu i wella ansawdd band eang ynghyd â chyflwyno dosbarthiadau llythrennedd digidol rheolaidd a all helpu i wella sgiliau digidol pobl hŷn a'u hannog i gymryd mwy o ran mewn digwyddiadau a gweithgarwch cymunedol.

Mae pandemig COVID-19 wedi rhoi mwy o bwys ar yr angen i Went gael mynediad i'r rhyngwrwd, gyda llawer o wasanaethau cyfleustodau, bancio a siopa yn darparu mwy o wasanaethau ar-lein a thrwy ddulliau digidol yn hytrach nag wyneb yn wyneb.

Gall allgáu digidol gael effaith sylweddol ar lesiant cymdeithasol pobl hefyd, gan fod gwasanaethau cyfathrebu digidol yn ei gwneud hi'n haws i bobl sy'n defnyddio'r rhyngwrwd i gymryd rhan yn eu hobiau a'u diddordebau a chadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau ar-

lein. I'r rhai nad ydynt yn defnyddio'r rhyngwrdd, neu'r rhai na allant ei ddefnyddio, gall allgáu digidol felly olygu eu bod yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn ynysig, yn ogystal â'i gwneud yn anos iddynt gael gafael ar rai gwasanaethau hanfodol. Fel y mae ffigurau 48 a 49 yn ei ddangos, mae gwaith i'w wneud o hyd ledled Gwent i sicrhau bod mwy na 90% o aelwydydd yn gallu cysylltu â'r rhyngwrdd a'i ddefnyddio.

Gall croesawu arloesedd digidol arwain at fwy o gyfleoedd economaidd a chymdeithas gryfach a mwy ffyniannus. Hefyd, gall sicrhau bod pobl yn meithrin y sgiliau digidol y bydd eu hangen arnynt a dylunio gwasanaethau mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr wella cydlyniant cymdeithasol, creu cymdeithas iachach a mwy cyfartal gyda chymunedau sydd â chysylltiadau da a chyfrannu at ffyniant y Gymraeg. Nod y Strategaeth Ddigidol i Gymru gan Lywodraeth Cymru yw darparu gwasanaethau digidol cydgysylltiedig drwy gydweithio, integreiddio ac ymgysylltu'n dda er mwyn helpu i ddylunio gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr sy'n cynnig profiad effeithlon a chyson i ddinasyddion o bob oedran.⁷³

7. Yr hyn y mae pobl yn ei ddweud wrthym

Drwy gydol yr holiadur llesiant, gwnaeth trigolion o bob rhan o Went dynnu sylw at gyfleoedd ac awgrymu dulliau gwella a'n helpodd ni i ddarganfod ansawdd llesiant ledled Gwent.

Mae llesiant economaidd yn cwmpasu meysydd fel cyflogaeth, sgiliau a chymwysterau, ynghyd ag agweddau economaidd eraill megis incwm ac addysg.

Cafwyd canmoliaeth gan gymunedau ledled rhanbarth Gwent am yr **amrywiaeth o amwynderau lleol** sydd ar gael o fewn pellter cerdded, a nodwyd ymhlith rhai o'r agweddau mwyaf arbennig ar fyw yn y cymunedau. Hefyd, dywedodd pobl wrthym fod hyn yn arbennig o bwysig i deuluoedd â phlant gan fod **amwynderau fel meddygon, deintyddion ac ysgolion yn agos iawn ac ar gael yn hawdd**. Fodd bynnag, mae cymunedau mwy gwledig yng Ngwent wedi beirniadu'r **diffyg amwynderau lleol**, gan nodi bod angen iddynt **deithio y tu allan i'w hardal leol** yn aml er mwyn gallu defnyddio amrywiaeth o wasanaethau lleol. Wrth ystyried pa agweddau a fyddai'n gwella eu cymuned, cytunai llawer o drigolion y byddai **gwasanaeth trafnidiaeth mwy hygyrch** yn helpu i'w gwneud hi'n haws manteisio ar amwynderau lleol yn y gymuned.

Nododd llawer o ymatebwyr fod **ansawdd trafnidiaeth gyhoeddus yn wael**, a hynny oherwydd anghysondebau o ran **amseriadau trafnidiaeth gyhoeddus** ynghyd â'r ffaith nad yw **prisiau trafnidiaeth** yn cyfateb i ansawdd y gwasanaeth y maent yn ei ddisgwyl. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin ymhlith cymunedau gwledig, a nododd fod **trafnidiaeth gyhoeddus yn anhygoel o anghyson** a bod angen iddynt fod yn fwy dibynnol ar ddefnyddio cerbydau personol. Pan ofynnwyd sut y gallem weithio gyda'r gymuned i'w helpu i wella ansawdd trafnidiaeth yn eu hardal leol, dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod am i **trafnidiaeth gyhoeddus ddod yn fwy fforddiadwy ac yn fwy rheolaidd** er mwyn helpu i ddarparu ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, ynghyd â'r genhedlaeth hŷn a all fod yn ei chael hi'n anodd defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd.

Economaidd	Beth sy'n arbennig am eich cymuned chi?	Beth fyddai'n ei gwneud yn lle gwell?	Pa bethau sy'n bwysig i chi a'ch teulu?	Sut le yr hoffech chi i'ch cymuned fod yn y dyfodol?	Sut y gall eich cymuned weithio gyda ni er mwyn sicrhau y bydd hynny'n digwydd?
	Mynediad at amwynderau (71)	Mynediad at drafnidiaeth (170)	Mynediad at drafnidiaeth (134)	Mynediad at drafnidiaeth (80)	Cyllid cymunedol (40)
	Mynediad at drafnidiaeth (50)	Mynediad at weithgareddau (98)	Mynediad at wasanaethau (124)	Mynediad at gyfleusterau (57)	Busnesau lleol (17)
	Mynediad at gyfleusterau (30)	Mynediad at gyfleusterau (84)	Cyllid cymunedol (38)	Mynediad at weithgareddau (50)	Digwyddiadau cymunedol (12)


(Ffigur 1: Y tri ymateb mwyaf cyffredin fesul cwestiwn yn yr arolwg llesiant)

Wrth i ni ddadansoddi'r holiadur llesiant, gwelsom hefyd, er bod pobl ledled Gwent yn canmol **ansawdd ac argaeledd gwasanaethau lleol**, fod llawer o ymatebwyr wedi nodi bod **prinder amlwg o ran busnesau lleol** a gaiff eu rhedeg gan bobl leol a bod **seilwaith lleol wedi'i amgylchynu gan gadwyni masnachol mawr** yn hytrach na bod busnesau lleol ar gael yn hawdd.

Yn ôl pobl ledled rhanbarth Gwent, mae gallu defnyddio trafnidiaeth yn bwysig iawn iddynt.

Roedd trigolion hefyd yn cydnabod bod angen gwneud gwelliannau, gyda thua 170 o ymatebion yn awgrymu y byddai gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus yn helpu i wneud eu cymunedau lleol yn lleoedd gwell i fyw ynddynt.

Roedd gallu manteisio ar gyfleusterau megis clybiau ieuenctid a chlybiau chwaraeon yn bwnc arall a gododd yn aml ymhlith trigolion, gan ymddangos mewn tri o'r pedwar cwestiwn a ofynnwyd yn ein holiadur llesiant.



Nododd dros 400 o ymatebion i'n holiadur llesiant fod gallu defnyddio trafndiaeth yn bwysig o fewn eu cymunedau, ond roeddent yn cydnabod y gellid gwneud newidiadau er mwyn helpu i wella ansawdd trafndiaeth gyhoeddus yn eu cymunedau.

Nododd bron i 50 o ymatebion y byddai cynyddu'r cyllid i'w cymunedau yn gwneud eu hardaloedd yn lleoedd gwell.

Pan ofynnwyd sut y gallem weithio gyda nhw i annog mwy o fusnesau lleol i weithredu yn y rhanbarth, nododd ymatebwyr y gellid gwneud mwy i hybu eu twf drwy awgrymiadau megis **hyrwyddo busnesau lleol drwy ddigwyddiadau cymunedol a gostwng ardrethi busnes** ynghyd â chynyddu buddsoddiad, a allai oll gyfrannu at wella'r sefyllfa o ran faint o fusnesau lleol sydd yn y rhanbarth. Hefyd, nododd rhai trigolion y gellid **dechrau ar hyn drwy addysg**, gan gynnal seminarau i bobl ifanc ynghylch manteision posibl dechrau busnesau lleol ac felly roi **mwyr o gymorth neu fuddsoddiad i ddarpar berchenogion busnesau**.

(Ffigur 2 – Beth sydd, yn ôl trigolion, yn arbennig ac a allai wneud eu

cymuned yn lle gwell?)

Access to transport	Mynediad at drafnidiaeth
Access to facilities	Mynediad at gyfleusterau
Access to activities	Mynediad at weithgareddau
Access to amenities	Mynediad at amwynderau
Access to services	Mynediad at wasanaethau
Local Business	Busnesau Lleol

Housing	Tai
Community Funding	Cyllid Cymunedol
Employment Opportunities	Cyfleoedd Cyflogaeth
Access to healthcare	Mynediad at ofal iechyd
Community Space	Mannau Cymunedol
Infrastructure	Seilwaith
Education	Addysg
Access to open space	Mynediad i fannau agored
Digital Provision	Darpariaeth Ddigidol
Recreation	Hamdden
Community events	Digwyddiadau cymunedol
Council services	Gwasanaethau'r cyngor
Quality of Education	Ansawdd Addysg
Income	Incwm
Opportunities for young people	Cyfleoedd i bobl ifanc
Community Safety	Diogelwch Cymunedol
Access to Adult Education	Mynediad at Addysg i Oedolion
Volunteering	Gwirfoddoli
Affordable Parking	Parcio Fforddiadwy
What is special about your community?	Beth sy'n arbennig am eich cymuned?
What would make your community a better place?	Beth fyddai'n gwneud eich cymuned yn lle gwell?

Er i lawer o ymatebion cadarnhaol gael eu rhoi ym mhob rhan o'r arolwg, rydym yn cydnabod y gallai gwella agweddau economaidd megis cyllid cymunedol helpu i wella agwedda eraill ar lesiant economaidd, er enghraifft mynediad at wasanaethau a thrafnidiaeth gyhoeddus, sef gwelliannau roedd cymunedau'n cytuno y byddent yn helpu i wella llesiant ledled y rhanbarth.

8. Tueddiadau a heriau'r dyfodol

Bydd dyfodol economaidd Gwent yn cynnig cyfleoedd a heriau. Mae Rhanbarth Dinas Caerdydd wedi nodi sectorau â blaenoriaeth a fydd yn bwysig ar gyfer economi'r rhanbarth dros y 10-20 mlynedd nesaf, a bydd y rhain yn bwysig i ffyniant Gwent yn y dyfodol. Bydd pontio i ddyfodol carbon isel a seilwaith digidol newydd yn creu swyddi mewn diwydiannau newydd sy'n datblygu. Bydd angen i bobl sy'n byw yng Ngwent feddu ar y sgiliau a'r wybodaeth y bydd eu hangen ar y mentrau hyn er mwyn iddynt gael budd o'r newidiadau hyn. Mae Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn disgwyl y bydd technoleg yn chwarae rhan gynyddol yn yr economi wrth i systemau ddod yn fwy digidol ac awtomataidd⁷⁴

Hefyd, bydd angen i Went y Dyfodol allu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys digwyddiadau tywydd eithafol, a digwyddiadau annisgwyl mewn marchnadoedd byd-eang. Bydd datblygu cadwyni cyflenwi lleol a chynhyrchu ynni yn lleol yn helpu hyn, a gallai hyn ddarparu cyflogaeth dda yn lleol, gan gynnwys i bobl sy'n ei chael hi'n anodd dod o hyd i waith addas ar hyn o bryd o bosibl.

Mae asesiad o risgiau newid hinsawdd y DU yn nodi risg i safleoedd busnes o ganlyniad i lifogydd a risgiau sy'n gysylltiedig â cholli lleoliadau a seilwaith arfordirol⁷⁵. Mae prinder dŵr, a lleihad yng nghynhyrchiant cyflogeion o ganlyniad i dymereddau uchel a difrod i seilwaith hefyd wedi cael eu nodi fel risgiau⁷⁶. Gallai prinder dŵr fod yn broblem i'r busnesau hynny sy'n dibynnu ar yr adnodd hwn ar gyfer prosesau cynhyrchu – megis y sector bwyd. Daw mesurau effeithlonrwydd dŵr yn fwyfwy pwysig, a bydd hyn hefyd o fodd i ôl troed carbon y rhanbarth. Bydd cysur thermol cyflogeion yn y gweithle yn risg bosibl i bob cyflogwr, a gallai mesurau oeri gynyddu'r defnydd o ynni.

Mae 1.5% o sylfaen gyflogaeth Gwent a chymaint â 4.6% o sylfaen gyflogaeth Sir Fynwy yn perthyn i'r sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgodfeydd⁷⁷. Efallai y bydd cyfleoedd economaidd yn y dyfodol yn sgil tymereddau cynhesach sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i sector twristiaeth Gwent hefyd. Fodd bynnag, gall Gwent hefyd ddisgwyl mwy o ddigwyddiadau tywydd eithafol yn y dyfodol, a allai effeithio ar hyfywedd gweithgareddau awyr agored.

Gallai'r ffaith bod y boblogaeth yn heneiddio arwain at brinder sgiliau mewn diwydiannau allweddol wrth i bobl ymddeol. Hefyd, mae'n bosibl y bydd angen i bobl hyn gael mwy o gymorth i fyw bywydau iach ac annibynnol, a bydd angen meddwl a chynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod y cymorth hwn ar gael a'i fod yn fforddiadwy ac o ansawdd da, gan gynnig gwaith da a llawn boddhad i'r bobl sy'n rhoi'r cymorth hwnnw. Gall technoleg, sgiliau ac arferion newydd helpu i frwydro yn erbyn rhai o'r problemau hyn, ond bydd angen i Went sicrhau ei fod yn ystyried yr heriau hirdymor hyn wrth gynllunio datblygiad economaidd er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli yn ein cymunedau ar hyn o bryd.

8.1 Adfer ar ôl COVID-19

Drwy ymgysylltu â thrigolion Gwent, rydym wedi dysgu bod pobl yn awyddus i weld dull â ffocws mwy pendant ac sydd wedi'i dargedu'n fwy o fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau yn ein cymunedau, sydd wedi gwaethgu yn sgil pandemig COVID-19.

Tynnodd ymatebwyr sylw at yr amrywiaeth o effeithiau y mae'r pandemig wedi'u cael ar wasanaethau megis trafnidiaeth, busnes ac iechyd. Gwnaethant bwysleisio mai adferiad academiaidd sydd o'r pwys mwyaf gan fod busnesau lleol wedi cael eu gorfodi i gau. Hefyd, cododd trigolion bryderon am effaith y pandemig ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan nodi ei bod yn dal yn anghyson heb ddigon o le i gwsmeriaid, sy'n effeithio ar allu pobl i ddefnyddio amwynderau lleol, yn enwedig pobl hŷn neu bobl nad ydynt yn gyrru.

Mae angen meithrin yr holl wirfoddolwyr a sgiliau newydd a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig a'u hannog i barhau ar ôl y pandemig drwy gynnig cymorth ariannol a gwell cyfleoedd hyfforddi iddynt er mwyn sicrhau y bydd y sgiliau a'r gwasanaethau hyn yn parhau i ffynnu. Nid yn unig y mae gwirfoddoli'n ffordd gadarnhaol o wella llesiant personol rhywun, ond mae hefyd yn hanfodol er mwyn helpu pobl hŷn i fod yn fwy cysylltiedig â'u cymuned, a gall hefyd fod yn gam delfrydol ar y ffordd tuag at ddechrau neu aildechrau gweithio am dâl i bobl iau.

Yn yr un modd, mae adferiad gwyrdd ffyniannus ar ôl pandemig COVID-19 yn dibynnu ar fuddsoddiad mewn sgiliau, hyfforddiant a sectorau gwyrdd sy'n helpu i greu gweithlu lleol ac economi sy'n addas ar gyfer y dyfodol er mwyn mynd i'r afael â'r agendâu cynaliadwyedd a datgarboneiddio. Mae'r New Economics Foundation yn awgrymu bod angen cymryd camau parhaus wedi'u targedu yng Nghymru er mwyn sicrhau bod diwydiannau twf gwyrdd yn cynnig cyfleoedd mynediad i fwy o bobl ym mhob rhan o'r farchnad lafur.⁷⁸ Ceir cyfle yma i nodi cyfleoedd yn y dyfodol o ran sgiliau a hyfforddiant a fydd yn codi yn sgil pontio i economi carbon isel, a manteisio ar y cyfleoedd hynny.⁷⁹

Yr heriau wrth helpu busnesau i godi'n ôl ar eu traed

Bu'n rhaid i rai sectorau economaidd allweddol gau am rywfaint o'r flwyddyn ddiwethaf, neu'r flwyddyn i gyd. Bydd angen cymorth hirdymor er mwyn helpu'r sectorau hyn i adennill eu nerth yn llawn – mae Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru wedi cyfeirio at anghenion penodol y sector twristiaeth, sy'n “wynebu tri gaeaf”. Mae rhagor o fanylion ar gael yn ein herthygl ar y sectorau a gafodd ergyd drom.

Bydd angen i'r adferiad fynd i'r afael â'r heriau sylfaenol hefyd. Yn hanesyddol, mae llai o fusnesau newydd wedi bod yn dechrau yng Nghymru na chyfartaledd y DU. Mae'r Athro Dylan Jones-Evans wedi galw ar Lywodraeth newydd Cymru i ganolbwyntio'n fwy manwl ar entrepreneuriaeth gan fod “tystiolaeth bendant fod cwmnïau newydd nid yn unig yn creu'r rhan fwyaf o'r swyddi newydd mewn unrhyw economi, ond eu bod yn gwneud hynny'n enwedig yn ystod dirwasgiad”.

Yng Nghymru, mae cynhyrchiant yn is na rhannau eraill o'r DU, gydag allbwn yr awr 17% yn is na chyfartaledd y DU yn 2018. Mae'r Athro Andrew Henley yn credu bod Cymru wedi tueddu i feddwl ei bod yn rhy anodd mynd i'r afael â chynhyrchiant isel ac, "yn y pen draw, mae cynhyrchiant yn wirioneddol bwysig, felly rhaid ystyried sut rydym am wynebu'r her hon". Mae'n pwysleisio y bydd yn hollbwysig gwario ar arloesedd a sgiliau, yn enwedig er mwyn cefnogi busnesau bach a microfusnesau.

Roedd yn anodd i rai busnesau ddod o hyd i weithwyr wrth i gyfyngiadau COVID-19 gael eu llacio yn ystod haf 2021. Gwelwyd nifer mwy nag erioed o swyddi gwag yn y sectorau llety a gwasanaethau bwyd, ac roedd tystiolaeth o brinder o staff medrus a chyflogaion yn dod o hyd i waith mewn meysydd eraill.⁸⁰

Cafodd niferoedd sylweddol iawn o swyddi yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru eu rhoi ar ffyrlo yn ystod pandemig y Coronafeirws, gan achub llawer o swyddi yng Ngwent. Fodd bynnag, trodd y sefyllfa ar ei phen yn ystod haf 2021 pan wynebodd busnesau twristiaeth anawsterau o ran cael staff i ddychwelyd i'r gwaith, gan arwain at brinder staff ledled y DU yn dilyn pandemig y Coronafeirws.

Effeithiau ar grwpiau gwahanol

Canfu'r Ganolfan Perfformiad Economaidd yn Ysgol Economeg Llundain fod dirwasgiadau blaenorol wedi cael effaith anghymesur ar y bobl ieuengaf, y bobl dlotaf a lleiafrifoedd ethnig. Mae hyn wedi bod yn wir yn ystod y pandemig hefyd.

Pobl ifanc yng Nghymru oedd fwyaf tebygol o weithio mewn 'sectorau a gaewyd' cyn y pandemig, ac o gael eu rhoi ar ffyrlo hefyd. Ceir pryder y gallwn weld 'cenhedlaeth wedi'i chreithio' a fydd yn teimlo effeithiau hirdymor diweithdra ymhlith pobl ifanc. Galwodd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau'r Pumed Senedd ar Lywodraeth nesaf Cymru i ystyried cyflwyno Gwarant Cyfleoedd i Bobl Ifanc rhwng 16 a 24 oed er mwyn helpu i fynd i'r afael â diweithdra ymhlith pobl ifanc.

Daeth y Resolution Foundation i'r casgliad bod gweithwyr ar gyflogau isel yn fwy tebygol o fod wedi colli eu swyddi, neu oriau a chyflog, neu o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo. Gwnaeth y Comisiwn Gwaith Teg, a sefydlwyd gan Lywodraeth flaenorol Cymru, argymhellion pellgyrhaeddol i sicrhau gwaith teg. Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi ychwanegu at yr heriau roedd llawer o weithwyr ar gyflogau isel eisoes yn eu hwynebu. Yn ogystal â galw ar Lywodraeth Cymru i roi argymhellion y Comisiwn ar waith yn llawn, mae Cyngres Undebau Llafur Cymru wedi amlinellu ffyrdd eraill y mae'n credu y dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd ati i sicrhau cymdeithas decach.

Yn anochel, bydd gweithwyr ar incymau isel a chanolig, pobl ddi-waith a phobl economaidd anweithgar yn dechrau ei chael hi'n anodd yn ariannol wrth i gostau byw gynyddu ac yn sgil newidiadau i Yswiriant Gwladol a'r cynnydd mewn prisiau ynni o fis Ebrill 2021 ymlaen. Gan fod effaith economaidd y pandemig eisoes yn golygu bod busnesau a chymunedau Gwent yn

y broses o godi'n ôl ar eu traed, mae'n bosibl y bydd angen mwy o ymyriadau a chymorth yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol er mwyn lliniaru'r pwysau o ran costau byw.

Roedd adroddiad yr Athro Emmanuel Ogbonna ar gyfer Llywodraeth flaenorol Cymru yn amlinellu anghydraddoldebau cyflogaeth ac incwm a wynebier gan leiafrifoedd ethnig. Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru wedi cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain, gan gynnwys gwella cynrychiolaeth a chynnydd yn y gweithle, mynd i'r afael â gwahaniaethu yn y gweithle, a chau'r bwlch cyflog ar sail ethnigrwydd. Cynhaliodd Llywodraeth flaenorol Cymru ymgynghoriad ar ei Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol, ond lle'r Llywodraeth nesaf fydd penderfynu sut i ddatblygu'r gwaith hwn.

Mae achosion o ddileu swyddi yn ystod dirwasgiadau blaenorol wedi tueddu i ddigwydd mewn sectorau sy'n cyflogi dynion yn bennaf. Fodd bynnag, menywod yw 45% o'r bobl y mae eu swyddi wedi cael eu dileu ers dechrau'r pandemig, o gymharu â thua thraean y bobl y cafodd eu swyddi eu dileu yn dilyn dirwasgiad 2008. Mae menywod hefyd wedi bod yn fwy tebygol na dynion o weithio mewn 'sector a gaewyd' ac, ers mis Gorffennaf 2020, mae mwy o fenywod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo na dynion. Mae Chwarae Teg wedi galw am adferiad economaidd ffeministaidd, sy'n cydnabod bod gofal yr un mor bwysig â chynhyrchu nwyddau.

Cyfleoedd i newid y ffordd y mae economi Cymru yn gweithio

Mae'r Athro Gillian Bristow a Dr Adrian Healy yn dweud y bydd creu economi fwy amrywiol, datblygiadau seiliedig ar le a pherchenogaeth leol yn meithrin y gallu i wrthsefyll digwyddiadau annisgwyl yn y dyfodol hirdymor. Maent yn dweud y byddai mynd i'r afael â heriau hirdymor megis llesiant cenedlaethau'r dyfodol a newid i economi ddi-garbon hefyd yn meithrin cadernid.

Ceir consensws ynglŷn â'r angen am 'adferiad gwyrdd', ond safbwyntiau gwahanol ynghylch beth yw ystyr hynny yn ymarferol. Mae Cydffederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru wedi galw am flaenoriaethu buddsoddiad mewn seilwaith gwyrdd drwy wneud gwaith ôl-osod ar gartrefi a datblygu rhwydweithiau gwefru cerbydau trydan.

Cytunodd Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adferiad Gwyrdd Cymru ar ddiffiniad o adferiad gwyrdd sy'n berthnasol i'r amrywiaeth o ecosystemau ar dir a môr, gan gynnwys camau gweithredu ymarferol wedi'u blaenoriaethu er mwyn gwneud y canlynol:

- lleihau allyriadau carbon a gwella'r gallu i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd
- gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth
- cysylltu pobl a byd natur
- Mynd i'r afael â lefelau anghynaliadwy o gynhyrchu a defnydd drwy barhau i ddefnyddio adnoddau am gymaint o amser â phosibl, gan osgoi gwastraff yn gyfan gwbl a throï at opsiynau amgen mwy cynaliadwy
- Wrth fwrw ymlaen â'r camau hyn, dylid targedu buddsoddiad er mwyn sicrhau'r canlynol:
- rhoddir blaenoriaeth i greu swyddi, meithrin sgiliau a marchnadoedd newydd

- rhoddir blaenoriaeth i grwpiau, cymunedau a lleoedd sy'n fwyaf agored i niwed / a gafodd eu taro galetaf er mwyn mynd i'r afael ag annhegwch ac anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol sylfaenol

Rhaid i'r cynllun adfer gyflawni pob un o'r chwe elfen hyn gyda'i gilydd, ac nid dim ond un ar ei phen ei hun⁸¹. Mae RSPB Cymru yn credu y dylai adferiad gwyrdd helpu'r amgylchedd naturiol i ymadfer a helpu i reoli adnoddau mewn modd cynaliadwy. Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wedi tynnu sylw at bwysigrwydd canolbwyntio'n eang ar nifer o feysydd a buddsoddi mewn sgiliau ar gyfer swyddi gwyrdd newydd.

Ceisiodd Llywodraeth flaenorol Cymru ddefnyddio'r economi sylfaenol i “gryfhau ein heconomiâu lleol, i greu swyddi gwell yn agosach at adref ac i adeiladu busnesau lleol cryfach”. Ond bydd angen chwalu rhwystrau i gyflawni hyn – fel diwygio prosesau caffael a mynd i'r afael â chyflogau isel ac amodau gwaith ansicr.

Mae'r sector cyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £6.3bn y flwyddyn drwy brosesau caffael. Mae Llywodraeth bresennol Cymru yn bwriadu gweithio gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus a busnesau bod prosesau caffael cyhoeddus yng Nghymru yn cynnig y gwerth mwyaf posibl i economi Cymru ac yn helpu busnesau yng Nghymru i gystadlu am contractau.⁸² Mae hyn yn arbennig o bwysig yn ystod y cyfnod ar ôl gadael yr UE lle y bydd cwmni i sbarduno twf busnesau lleol drwy brosesau caffael yn y sector cyhoeddus a gwella darpariaeth bwyd drwy gadwyni cyflenwi lleol. Drwy symud o ddull sy'n seiliedig ar brosesau i ddull sy'n seiliedig ar ganlyniadau, gallwn sicrhau bod y £6bn a gaiff ei wario bob blwyddyn gan y sector cyhoeddus yng Nghymru yn sicrhau'r canlyniadau gorau o ran y pedwar math o lesiant i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.⁸³

Os caiff yr Economi Sylfaenol ei meithrin â'i chefnogi â'r ymyriadau cywir, gallai fod yn rhan annatod o economi gref a sefydlog yng Ngwent, gan gynnig cyfle penodol i sectorau allweddol fel iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer grwpiau allweddol o'r boblogaeth gan gynnwys y bobl sydd bellaf i ffwrdd oddi wrth y farchnad lafur ar hyn o bryd. Hefyd, ceir cyfleoedd i gefnogi twf, arallgyfeirio a busnesau newydd yn yr Economi Sylfaenol, er enghraifft mewn sectorau â blaenoriaeth a nodwyd gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynyddu nifer ac amrywiaeth y swyddi (a'r sgiliau) sydd ar gael yn lleol.

Mae Cronfa Her yr Economi Sylfaenol wedi cefnogi prosiectau yn y cymoedd, gan gynnig cymorth i brosiectau arbrofol er mwyn profi beth yw'r ffordd orau i Lywodraeth Cymru helpu i feithrin a thyfu sylfeini ein heconomiâu lleol, gyda'r bwriad o rannu dulliau llwyddiannus ledled Cymru.

Mae Cronfa Her gwerth £10m Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sydd â'r nod o ailadeiladu cyfoeth lleol drwy gynnig atebion arloesol er mwyn mynd i'r afael â rhai o broblemau cymdeithasol mwyaf dyrys y ranbarth, yn cynnig cyfle i wella twf a datblygiad cadwyni cyflenwi lleol ledled Gwent. Gallai hyn fod drwy ddatblygu atebion lleol i'r berthynas rhwng bwyd ac iechyd, gan gefnogi cymunedau gwledig drwy ganol trefi a'r stryd fawr, neu ymgorffori datgarboneiddio yn y system drafnidiaeth.

Er mwyn lleihau allyriadau carbon a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag effaith economaidd COVID-19 a'r ffaith bod y DU wedi gadael yr UE, mae angen meddwl mewn ffyrdd gwahanol er mwyn sicrhau cyflogaeth a sgiliau cynaliadwy a hirdymor i gefnogi economi Gwent. Mae cefnogi ac atgyfnerthu'r Economi Sylfaenol yn un ffordd bosibl o archwilio hyn.

Bydd datblygu mentrau, yn enwedig mewn perthynas â manteisio i'r eithaf ar brosesu caffael a chadwyni cyflenwi lleol yn cefnogi busnesau lleol ac felly'n cefnogi cyflogaeth leol hefyd. Gallai cymorth ychwanegol i'r sector geisio codi safonau hefyd (gwell sgiliau, gwell cyflogau) gan gynnig rhagolygon hirdymor gwell i genedlaethau'r dyfodol.

Mae'n amlwg bod heriau byrdymor a hirdymor sylweddol yn wynebu economi Cymru, ac y bydd y rhain yn arbennig o ddifrifol mewn rhai sectorau. Fodd bynnag, yn ddiamau, bydd cyfleoedd hefyd i wella'r ffordd y mae'r economi'n gweithio i bawb.

Mae'r Fframwaith Economaidd Rhanbarthol ar gyfer De-ddwyrain Cymru yn nodi nifer o heriau a chyfleoedd i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n berthnasol i Went hefyd. Ymhlith y rhain mae arloesedd, ymchwil a chystadleurwydd, lle a chysylltedd (ffisegol a digidol), a newid yn yr hinsawdd, cynaliadwyedd a chadernid.⁸⁴ Pan gaiff y Fframwaith terfynol i gyhoeddi, bydd yn amlinellu cyfres o flaenoriaethau a rennir ar gyfer y rhanbarth a fydd yn cefnogi twf economaidd cynhwysol a chynaliadwy sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a lleol.

Hefyd, ceir nifer o gwestiynau y daw'r atebion iddynt i'r amlwg dros y blynyddoedd nesaf. Beth fydd effaith y cynnydd mewn gweithio o bell ar batrymau cymudo a gweithio, a sut y bydd hyn yn effeithio ar ganol ein trefi a'n dinasoedd? Beth sydd gan y dyfodol i'w gynnig o ran awtomeiddio a deallusrwydd artiffisial, a sut y gallai hyn effeithio ar gynhyrchiant a swyddi? Bydd angen i Lywodraeth nesaf Cymru ymateb i ddatblygiadau yn y meysydd hyn yn ogystal â sicrhau adferiad economaidd⁸⁵.

8.2 Ymadael â'r UE

Ffurfiwyd y Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE ar 24 Rhagfyr 2020, wythnos cyn i'r cyfnod pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr gan esgor ar berthynas newydd rhwng y DU a'r UE.

Yn sgil diwedd y cyfnod pontio, gwelwyd newidiadau ymarferol sylweddol ym mherthynas Cymru a'r DU ag Ewrop: diwedd rhyddid i symud i bobl a mynediad dirwysr i'r Farchnad Sengl, gan olygu bod y DU yn rhoi'r gorau i fod yn rhan o'r Undeb Tollau ac nad yw rheolau a chytundebau rhyngwladol yr UE yn gymwys iddi mwyach.

Roedd twristiaeth hefyd yn sector allweddol yr effeithiodd ymadawiad y DU â'r UE arno, ac mae effaith gyfunol COVID-19 a Brexit wedi arwain at brinder gweithwyr.

Yn ôl Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2021 – Effaith COVID-19 Cam 7 (arolwg o 800 o fusnesau gan gynnwys 123 yn Ne-ddwyrain Cymru), ymhlith y rhesymau a roddodd busnesau dros yr anawsterau wrth lenwi swyddi roedd canfyddiad bod sectorau eraill yn cynnig cyflogau gwell, oriau mwy dymunol (llai gwrthgymdeithasol) neu fwy o sicrwydd gwaith. Ar ôl i staff

gael amser i fyfyrir yn ystod y cyfnod ffyrlo, nid oedd dychwelyd i'w swyddi yn y sector twristiaeth yn apelio atynt mwyach. Roedd y rhan fwyaf (70%) o'r busnesau a holwyd yr oedd ganddynt swyddi gwag yn gobeithio llenwi swyddi sy'n gofyn am lefel isel o sgiliau neu brofiad.

Er bod gan y sector twristiaeth yng Ngwent botensial i ymadfer o ran galw yn y dyfodol, bydd gwireddu'r potensial hwnnw'n dibynnu ar allu busnesau i ddod o hyd i'r staff a'r sgiliau y bydd eu hangen arnynt.

Yr hyn y mae'n ei olygu i Gymru

Rhagwelir y bydd masnach yn y DU tua 10.5% yn is yn y tymor hir o dan y cytundeb newydd, a chynhyrchiant a chynnyrch domestig gros tua 3.25% yn is.

Er mai cyflawniad allweddol y cytundeb yw ei fod yn golygu na fydd tariffiau na chwotâu ar yr holl nwyddau a gynhyrchir yn y DU a'r UE, nid yw hyn yn golygu bod gennym yr un math o fynediad i farchnadoedd yr UE ag o'r blaen; ceir rhwystrau sylweddol newydd nad ydynt yn dariffiau a chyfyngiadau newydd o ran pa nwyddau a all fanteisio ar y mynediad didariff a digwota i'r farchnad drwy reolau tarddiad cyfyngol

Bydd y cyfyngiadau hyn ar fasnach i gyd yn arwain at oblygiadau go iawn i'r economi, i fusnesau ac i swyddi pobl. Yn wir, ym marn Llywodraeth Cymru a llawer o ddadansoddwyr annibynnol, dim ond fframwaith ar gyfer y berthynas y mae'r Cytundeb yn ei gynnig, a bydd angen i'r berthynas honno ddatblygu ymhellach. Mewn sawl maes, mae cryn dipyn o gytundebau a threfniadau heb gael eu rhoi ar waith o hyd ac, ar hyn o bryd, nid yw'r Cytundeb yn adlewyrchu cymhlethdod llawn yr amrywiaeth o feysydd cydweithio y bydd eu hangen rhwng y DU a'r UE.

Mae canlyniadau'r Cytundeb yn amrywiol iawn, ynghyd â'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i baratoi ar eu cyfer. Mae llawer o'r rhain yn faterion y bydd angen delio â nhw ar y diwrnod cyntaf neu yn yr wythnos gyntaf, a bydd angen cymryd rhai camau i baratoi ein busnesau a'n cymunedau ar gyfer y newidiadau ar ddechrau eleni, a rhoi camau gweithredu ar waith i sicrhau y byddwn yn cynnal cyflenwad didrafferth o nwyddau hanfodol. Ond mae angen cymryd llawer o gamau eraill i baratoi Cymru ar gyfer perthynas cwbl wahanol â'r UE. Mae hyn yn cynnwys y rhaglen sylweddol o fuddsoddiad a fydd yn ofynnol mewn porthladdoedd yng Nghymru er mwyn bod yn barod ar gyfer y rheolaethau mewnfario newydd a gaiff eu cyflwyno'n raddol.

Bydd y newidiadau hyn yn arwain at oblygiadau i gymunedau o gwmpas Caergybi a'r porthladdoedd yn ne-orllewin Cymru, ond hefyd i'r busnesau sy'n masnachu drwyddynt. Ein blaenoriaeth erioed yw canolbwyntio ar helpu dinasyddion yng Nghymru ac economi Cymru i ymateb i'r newid a'r heriau anochel y mae'r Cytundeb wedi'u hachosi, a bydd hynny'n parhau⁸⁶.

Mae Gweinidog presennol Llywodraeth Cymru dros yr Economi wedi rhybuddio y gallai methu â sicrhau arian yn lle'r arian a gollwyd o gronfeydd strwythurol yr UE olygu y bydd mesurau cyni'n dychwelyd i Gymru.

Mewn cyfweiliad â'r Financial Times, dywedodd y Gweinidog: 'Mae'r canghellor wedi dweud na fydd cyni'n dychwelyd. A dweud y gwir, os bydd arian yn diflannu . . . mae'n bosibl y gwelwch y bydd yn rhaid i chi wneud dewisiadau sy'n edrych yn debyg iawn i'r dewisiadau y bu'n rhaid i mi eu gwneud fel gweinidog pan oedd cyni ar ei anterth.'

Amcangyfrifir bod Cymru wedi colli £375 miliwn y flwyddyn mewn cymorth economaidd gan yr UE⁸⁷. Oni eir i'r afael â'r diffyg hwn, byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru 'fantoli'r cyllidebau' a gwneud y mathau o benderfyniadau a wnaed pan oedd 'cyni ar ei anterth'.

O ran ffermwyr yng Ngwent, mae'r DU wedi gadael y Polisi Amaethyddol Cyffredin fel rhan o'r broses o ymadael â'r UE. Mae system interim debyg i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn cael ei chynnal o dan Ddeddf Amaethyddiaeth 2020 tan y bydd Cymru'n pontio i gynlluniau domestig newydd. Caiff polisi amaethyddol y dyfodol eu ddatblygu yng nghyd-destun cytundebau masnach newydd. Mae ffermwyr yn galw am strategaeth fasnach sy'n ceisio sicrhau'r mynediad gorau posibl i farchnadoedd tramor gan ddiogelu safonau bwyd a ffermio uchel Cymru ar yr un pryd.

Mae dadansoddiad gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn awgrymu y byddai'r newidiadau mwyaf tebygol i amodau masnachu yn tueddu i arwain at anfantais gystadleuol i amaethyddiaeth yng Nghymru yn ei marchnadoedd presennol ac o gymharu â'i chystadleuwyr masnachu (yn enwedig ym meysydd defaid a gwartheg eidion). Ar y cyfan, mae'n dal yn bosibl y bydd gostyngiad o ran lefelau a chwmpas cyllid cyhoeddus o gymharu â'r rhai y mae'r sector wedi'u cael yn ddiweddar, yn ogystal â lleihad mewn llafur mudol tymhorol yn y tymor hir.

Fodd bynnag, o fewn y senarios newid tebygol heriol hyn, daw cyfleoedd i'r amlwg os caiff busnesau fferm eu galluogi i ymateb mewn modd ymaddasol, er enghraifft mewn perthynas â newidiadau posibl i batrymau ac opsiynau masnachu gartref ac yn rhyngwladol, a thargedu cymorth domestig ar gyfer amaethyddiaeth, coedwigaeth, yr amgylchedd naturiol a datblygu gwledig yng Nghymru, a gwerth ychwanegol hynny.⁸⁸

8.3 Y cyfnod pontio o'r UE ar gyfer Gwent

Daeth cronfeydd strwythurol yr UE i ben ym mis Rhagfyr 2020 ond mae Llywodraeth y DU wedi addo darparu cyllid yn lle'r diffyg yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae San Steffan yn bwriadu creu Cronfa Ffyniant Gyffredin gan ddarparu tua £1.5 biliwn y flwyddyn, ond nid oes manylion am sut yn union y bydd hyn yn gweithio.

Yn y cyfamser, bydd Cronfa Adfywio Cymunedol fel rhan o agenda Ffyniant Bro Llywodraeth y DU yn darparu £46m o gyllid ledled Cymru er mwyn helpu ardaloedd lleol i baratoi ar gyfer lansio Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU yn 2022. Mae 100 o "leoedd â blaenoriaeth" ar gyfer Cronfa Adfywio Cymunedol y DU wedi cael eu nodi yn seiliedig ar fynegai cadernid economaidd Llywodraeth y DU. Mae 14 o'r lleoedd hyn yng Nghymru, gan gynnwys dau yng Ngwent: Blaenau Gwent a Thorfaen. Dyfarnwyd y cyllid i ardaloedd awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2021 er mwyn treialu rhaglenni newydd sy'n buddsoddi mewn pobl a busnesau

lleol, yn rhoi hwb i sgiliau, ac yn helpu i ddatgarboneiddio. Mae'r cyfanswm a ddyfarnwyd ledled Gwent fel a ganlyn⁸⁹:

- Blaenau Gwent - £2,708,218
- Caerffili - £1,327,368
- Sir Fynwy - £4,455,730
- Casnewydd - £2,853,143
- Torfaen - £3,861,344
- **GWENT - £15,205,803**

Fel rhan o raglen dwf flaenorol Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd 2014 – 2020, amcangyfrifir y byddai Cymru wedi cael o leiaf £375m o gyllid newydd gan yr UE i'w fuddsoddi yn ystod 2021. Felly, mae'r £46m sydd wedi'i ddyfarnu i Gymru drwy'r cyllid newydd gan Lywodraeth y DU ar hyn o bryd yn brin o'r lefelau buddsoddiad a welwyd yn flaenorol drwy'r Cronfeydd Strwythurol, ond amser a ddengys a fydd y buddsoddiad yn cyrraedd yr un lefelau ag a welwyd cyn Brexit ledled Cymru drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin o 2022 ymlaen.

Mae Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi codi pryderon bod cynlluniau Llywodraeth y DU ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a'r Gronfa Adfywio Cymunedol yn hepgor y gweinyddiaethau datganoledig⁹⁰.

Cynhaliodd Grant Thornton ddadansoddiad yn 2020 ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) mewn perthynas â'r rhaglen gymorth ar gyfer Pontio o'r UE i awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'n ystyried y ffactorau sydd fwyaf tebygol o effeithio ar allu lleol i addasu yn y DU ar ôl Brexit, gan gynnwys 'Mynegai Bregusrwydd Cymunedau' sy'n seiliedig ar ddata ar ddiweithdra, sgiliau isel, galwedigaethau lefel isel, dim cymwysterau, incwm ac amddifadedd.

- Blaenau Gwent sydd yn y safle uchaf o blith awdurdodau lleol Gwent, ac mae yn yr 20% uchaf ym Mynegai Bregusrwydd Cymunedau Grant Thornton, sy'n dangos lefelau uchel iawn o fregusrwydd cymdeithasol yn sgil pontio o'r UE. Sir Fynwy sydd yn y safle isaf, ac mae yn 20% isaf y Mynegai, sy'n dangos lefelau isel o fregusrwydd cymdeithasol yn sgil pontio o'r UE.
- Ymhlith yr ardaloedd amlwg o fregusrwydd mae'r lefel uchel iawn o bobl sy'n gweithio mewn galwedigaethau elfennol, ar lefelau sgiliau isel iawn ac ar gyfansymiau incwm isel iawn ym Mlaenau Gwent; y lefelau uchel iawn o ddiweithdra a'r gyfran uchel o bobl ag NVQ1 yng Nghaerffili; y lefelau incwm isel iawn a'r gyfran uchel o'r boblogaeth sydd ond â chymwysterau hyd at lefel NVQ1 yn Nhorfaen; a lefelau amddifadedd uchel iawn yng Nghasnewydd.
- Mae lefelau NINO (oedolion o wledydd tramor sy'n dod i mewn i'r DU ac yn cael Rhif Yswiriant Gwladol) o'r UE wedi gostwng yn sylweddol ym Mlaenau Gwent (59.8%) a Chaerffili (52.9%) rhwng 2016 a 2020. Gostyngiad o 39.8% a welwyd yng Nghasnewydd, sy'n isel iawn o gymharu â'r grŵp cymharol.
- Mae cyfran uchel o gyflogaeth yn y sectorau Gweithgynhyrchu a Manwerthu ym Mlaenau Gwent, Gweithgynhyrchu a Chyfanwerthu yng Nghaerffili, Crefftiau Modur a Chyfanwerthu yn Sir Fynwy a Gweithgynhyrchu yn Nhorfaen, ac mae pob un o'r rhain

wedi'u nodi'n ddiwydiannau sy'n wynebu'r risg fwyaf yn sgil pontio o'r UE. O gymharu â holl awdurdodau eraill Cymru, mae gan Gasnewydd lefelau isel o gyflogaeth mewn sectorau sy'n wynebu risg.

- Mae gwerth ychwanegol gros fesul swydd yng Ngwent yn amrywio o'r chweched safle yn genedlaethol yng Nghaerffili i'r 16^{eg} safle yn Nhorfaen.
- Mae lefel y bobl sy'n hawlio budd-daliadau wedi codi ers mis Mawrth ym mhob awdurdod lleol ac wedi aros yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU ym Mlaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd, ond yn llawer is na chyfartaledd Cymru a'r DU yn Sir Fynwy. Yng Nghaerffili, mae'r lefel wedi aros yn debyg i lefelau Cymru a'r DU.

Mae nifer y bobl sydd wedi defnyddio Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig ym Mlaenau Gwent, Caerffili a Thorfaen yn fwy na'r cyfartaledd. Mae'r cyfraddau hyn yn isel yn Sir Fynwy a Chasnewydd.⁹¹

I grynhoi, y gwahaniaeth sylfaenol yn ein perthynas â'r UE yn 2021 o gymharu â 2020 yw nad oes rhyddid i bobl, nwyddau, gwasanaethau na chyfalaf symud yn ddirwystr rhwng y DU a 27 aelod-wladwriaeth yr UE mwyach ac, o ganlyniad i hynny, rydym yn wynebu rhwystrau newydd o ran masnachu nwyddau a gwasanaethau a'n hawliau i deithio, byw a gweithio mewn gwledydd eraill yn Ewrop.

Bydd y goblygiadau'n bellgyrhaeddol i bob rhan o'r economi. Bydd angen i fusnesau a sefydliadau ledled Gwent feddu allu addasu ac ymateb i'r newidiadau mewn amgylchiadau sy'n gysylltiedig ag ymadawiad y DU â'r UE, yn ogystal â phandemig COVID-19 sy'n dal i fynd rhagddo, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol barhau i gael cyfleoedd i wella eu llesiant economaidd.

Tabl o Ffigurau

Ffigur 1: Cyfradd gweithgarwch economaidd – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion-Rhag 2020.	4
Ffigur 2: Cyfradd cyflogaeth – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion-Rhag 2020.	5
Ffigur 3 Canran y bobl mewn gwaith ar gontract dim oriau.....	6
Ffigur 4 Canran y bobl rhwng 16 a 64 oed sy'n hunangyflogedig, Ion – Rhag 2020.	7
Ffigur 5 Hawliadau am bedwerydd grant y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig hyd at 6 Mehefin 2021.	7
<i>Ffigur 6 Cyflogaeth yn ôl galwedigaeth, pobl rhwng 16 a 64 oed, 2020</i>	9
Ffigur 7 Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant, pobl rhwng 16 a 64 oed, 2019. (Noder mai dim ond lle mae'n cyfrif am 3.5% neu fwy o'r bobl gyflogedig o fewn yr awdurdod lleol y mae canran y math o ddiwydiant wedi'i labelu).....	10
Ffigur 8 Cyflog gros yr wythnos yn ôl preswylfa (£), awdurdodau lleol Gwent, 2020	12
Ffigur 9 Cyflog gros yr wythnos (£) yn ôl preswylfa, awdurdodau lleol Gwent, 2011–2020.	13
Ffigur 10 GDHI (£), awdurdodau lleol Gwent, 2018.....	14
Ffigur 11 GDHI (£), awdurdodau lleol Gwent, 2009–2018	14
Ffigur 12 Aelwydydd mewn gwaith/cymysg/heb waith rhwng 16 a 64 oed ar gyfer awdurdodau lleol Gwent, 2019.....	15
Ffigur 13 Aelwydydd heb waith, awdurdodau lleol Gwent, 2010–2019	15
Ffigur 14 Cyfradd diweithdra – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion-Rhag 2020.	16
Ffigur 15 Cyfradd diweithdra – 2010–2020. Add ref as endnote	16
Ffigur 16 Cyflogaethau ar ffyrlo o fewn etholaethau, ar 31 Mawrth 2021.	17
Ffigur 17 Awdurdodau lleol Gwent yn safle uchaf MALIC am amddifadedd cyffredinol.	19
Ffigur 18 Canran yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn safle uchaf MALIC am amddifadedd cyffredinol.....	20
Ffigur 19 Lleoliad yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd cyflogaeth.....	21
Ffigur 20 Canran yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd cyflogaeth.....	21
Ffigur 21 Lleoliad LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd incwm.....	22
Ffigur 22 Canran yr LSOAs fesul awdurdod lleol yng Ngwent sydd yn y safle uchaf am amddifadedd incwm.....	23
Ffigur 23 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau – trigolion rhwng 16 a 64 oed, Mai 2021.....	24
Ffigur 24 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel canran o'r trigolion rhwng 16 a 64 oed, Mai 2021	24
Ffigur 25 Nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau fel canran o'r trigolion rhwng 16 a 64 oed	25
Ffigur 26 Canran y teuluoedd y bydd y toriad i Gredyd Cynhwysol a Chredyd Treth Gwaith ym mis Hydref 2021 yn effeithio arnynt.	26
Ffigur 27 Cyfradd anweithgarwch economaidd – pobl rhwng 16 a 64 oed, Ion–Rhag 2020.....	27
Ffigur 28 Cyfradd anweithgarwch economaidd yn ôl rheswm, Ion–Rhag 2020.....	28
Ffigur 29 Parseli bwyd a ddosbarthwyd, drwy drefniadau dosbarthu Ymddiriedolaeth Trussell	30
Ffigur 30 Grwpiau tlodi bwyd, Ionawr 2021	33
Ffigur 31 Mentrau busnes gweithredol fesul 10,000 o oedran gweithio, 2019	35
Ffigur 32 Busnesau gweithredol fesul 10,000 o oedran gweithio, 2008–2019	36
Ffigur 33 Cyfradd y busnesau gweithredol newydd fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio..	36
Ffigur 34 Cyfradd y busnesau gweithredol sydd wedi cau fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gweithio	37
Ffigur 35 Canran y busnesau newydd sydd wedi goroesi ar ôl tair blynedd o fasnachu.....	37
Ffigur 36 Effaith Economaidd Twristiaeth yng Ngwent 2015–2020	39

Ffigur 37 Niferoedd ymwelwyr (cyfanswm) yng Ngwent 2015–2020	39
Ffigur 38 Niferoedd Ymwelwyr (sy'n aros) yng Ngwent 2015–2020	40
Ffigur 39 Diwrnodau Ymwelwyr yng Ngwent 2015–2020	40
Ffigur 40 Swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn a gefnogir gan wariant twristiaeth yng Ngwent 2015-2020	41
Ffigur 41 Y ganran o'r trigolion sy'n gweithio sy'n byw ym mhob ardal awdurdod lleol sy'n cymudo allan o'r ardal, 2020	46
Ffigur 42 Y ganran o'r bobl sy'n gweithio ym mhob awdurdod lleol sy'n cymudo i mewn i'r ardal, 2020	46
Ffigur 43 Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru, 2020 (Noder nad yw cyfanswm pob awdurdod lleol yn hafal i gyfanswm Cymru oherwydd y defnydd o ddata sampl ac am na chaiff gwerthoedd isel eu cofnodi)	47
<i>Ffigur 44 Canran y gweithwyr sydd fel arfer yn teithio i'r gwaith mewn car yn ôl rhanbarth y gweithle, Prydain Fawr, 2018</i>	<i>48</i>
<i>Ffigur 45 Dull arferol o deithio i'r gwaith yn ôl rhanbarth preswyllo: Prydain Fawr, o fis Hydref i fis Rhagfyr 2019</i>	<i>48</i>
Ffigur 46 Y gyfran o'r gweithwyr a gwblhaodd yr arolwg sy'n gweithio gartref, 2020	49
Ffigur 47 Canran y gweithwyr a wnaeth rywaint o waith gartref, yn ôl NUTS, y DU, 2019 o gymharu â 2020.	50
Ffigur 48 Cyfran y trigolion sydd â mynediad i'r rhyngrwyd yn y cartref, 2019-2020	53
Ffigur 49 Cyfran y trigolion sy'n defnyddio'r rhyngrwyd (gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau a ddelir yn y llaw), 2019-2020	54

Cyfeiriadau:

- ¹ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ² Canllaw SYG ar Ystadegau'r Farchnad Lafur
<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/methodologies/aguidetolabourmarketstatistics>
- ³ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ⁴ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth – dadansoddiad o'r gweithle) <https://www.nomisweb.co.uk/>
- ⁵ Iechyd Cyhoeddus Cymru, *Covid-19 and Employment Changes in Wales*
<https://phw.nhs.wales/publications/publications1/covid-19-and-employment-changes-in-wales-what-we-know-about-current-and-future-impacts/>
- ⁶ Ystadegau SYG ar Gyflogaeth a'r Farchnad Lafur
<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/datasets/emp17peopleinemploymentonzerohourscontracts>
- ⁷ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ⁸ Ystadegau ar y Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig ar Gov.UK: Gorffennaf 2021
<https://www.gov.uk/government/statistics/self-employment-income-support-scheme-statistics-july-2021>
- ⁹ Proffil Swyddogol Nomis o'r Farchnad Lafur – Cymru
<https://www.nomisweb.co.uk/reports/lmp/lor/2013265930/report.aspx#tabempocc>
- ¹⁰ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ¹¹ Y Sefydliad Iechyd, Ebrill 2021 <https://health.org.uk/evidence-hub/work/job-security/percentage-of-employees-in-involuntary-insecure-work-by-region>
- ¹² Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion - dadansoddiad o drigolion) <https://www.nomisweb.co.uk/>
- ¹³ StatsCymru Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) yn ôl ardaloedd lleol yng Nghymru a blwyddyn <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Earnings/medianweeklyearnings-by-welshlocalareas-year>
- ¹⁴ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'Dyfodol Gwaith yng Nghymru'
<https://www.wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/dyfodol-gwaith-yng-nghymru/>
- ¹⁵ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ¹⁶ StatsCymru Aelwydydd heb waith yng Nghymru yn ôl oedran, newidyn, statws yr aelwyd a blwyddyn <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Workless-Households/worklesshouseholdsinwales-by-age-variable-householdstatus-year>
- ¹⁷ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ¹⁸ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ¹⁹ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth)
<https://www.nomisweb.co.uk/>
- ²⁰ SYG – Cyfraddau Dileu Swyddi yn ôl Oedran, Diwydiant a Rhanbarth
<https://www.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peoplenotinwork/redundancies/datasets/redundanciesbyindustryagesexandemploymentratesred02>
- ²¹ CTHEM, ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws: 6 Mai 2021
<https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-6-may-2021/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-6-may-2021>

-
- ²² Dadansoddiad y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o'r Coronafeirws <https://obr.uk/coronavirus-analysis/>
- ²³ CThEM, ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws: Chwefror 2021 – tablau data, 25 Chwefror 2021 **Error! Hyperlink reference not valid.**
- ²⁴ Ystadegau'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws yng Nghymru: 29 Gorffennaf 2021 <https://llyw.cymru/ystadegau-ar-y-cynllun-cadw-swyddi-coronafeirws-29-gorffennaf-2021-29-gorffennaf-2021>
- ²⁵ Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Adroddiad Canlyniadau <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau-527.pdf>
- ²⁶ StatsCymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019>
- ²⁷ Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Adroddiad Canlyniadau <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau-527.pdf>
- ²⁸ StatsCymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019>
- ²⁹ Llywodraeth Cymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Adroddiad Canlyniadau <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-11/mynegai-amddifadedd-lluosog-cymru-2019-adroddiad-canlyniadau-527.pdf>
- ³⁰ StatsCymru, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019 <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/WIMD-2019>
- ³¹ Llywodraeth Cymru, Incwm Tlodi Cymharol: Ebrill 2019 i Fawrth 2020 <https://llyw.cymru/tlodi-incwm-cymharol-ebrill-2019-i-fawrth-2020-html>
- ³² Hick a Lanau Mawrth 2017, In-Work Poverty in the UK: Problem, Policy Analysis and Platform for Action https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0009/758169/Hick-and-Lanau-In-work-poverty-in-the-UK.pdf
- ³³ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth) <https://www.nomisweb.co.uk/>
- ³⁴ Sefydliad Joseph Rowntree, Universal Credit – the impact of cutting the £20-a-week <https://www.jrf.org.uk/universal-credit-cut-impact-constituency>
- ³⁵ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth) <https://www.nomisweb.co.uk/>
- ³⁶ Ystadegau Swyddogol Nomis ar y Farchnad Lafur (Arolwg blynyddol o'r boblogaeth) <https://www.nomisweb.co.uk/>
- ³⁷ Ymchwil y Senedd, Mai 2021, Gofal Cymdeithasol: system sydd ar fin torri? <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/gofal-cymdeithasol-system-sydd-ar-fin-torri/>
- ³⁸ Gyrfa Cymru, Hynt Disgyblion 2020 <https://gyrfacymru.llyw.cymru/athrawon-a-gweithwyr-proffesiynol-addysg/hynt-disgyblion>
- ³⁹ Llyw.Cymru <https://llyw.cymru/pobl-ifanc-heb-fod-mewn-addysg-cyflogaeth-neu-hyfforddiant-neet-2020>
- ⁴⁰ Ystadegau diwedd blwyddyn Ymddiriedolaeth Trussell <https://www.trusselltrust.org/news-and-blog/latest-stats/end-year-stats/#total>
- ⁴¹ Y Sefydliad Bwyd [FF Impact-of-Covid FINAL.pdf](https://www.foodfoundation.org.uk/) (foodfoundation.org.uk)
- ⁴² Prifysgol Sheffield, UK Local Food Insecurity of Adults Jan 2021 <https://shefuni.maps.arcgis.com/apps/instant/interactivelegend/index.html?appid=8be0cd9e18904c258afd3c959d6fc4d7>
- ⁴³ Prifysgol Sheffield, UK Local Food Insecurity of Adults Jan 2021 <https://shefuni.maps.arcgis.com/apps/instant/interactivelegend/index.html?appid=8be0cd9e18904c258afd3c959d6fc4d7>

-
- ⁴⁴ Arolwg Coram o Deuluoedd a Gofal Plant 2021
https://www.familyandchildcaretrust.org/sites/default/files/Resource%20Library/Childcare%20Survey%202021_Coram%20Family%20and%20Childcare.pdf
- ⁴⁵ <https://www.complantcymru.org.uk/cyhoeddiadau/safbwyntiau-polisi/gofal-plant/>
- ⁴⁶ Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant a Chynllun Gweithredu Blaenau Gwent 2017
- ⁴⁷ Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Caerffili 2017
- ⁴⁸ Ffurflen Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Sir Fynwy 2017
- ⁴⁹ Diweddariad Blynnyddol o Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Casnewydd 2020-21
- ⁵⁰ Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant Torfaen 2017
- ⁵¹ StatsCymru, Mentrau Busnes Gweithredol fesul 10,000 o'r boblogaeth
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/activebusinessenterprisesperpopulation-by-area-year>
- ⁵² StatsCymru, Busnesau newydd, busnesau sydd wedi cau a mentrau gweithredol yn ôl ardal
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Businesses/Business-Demography/businessbirthsdeathsactiveenterprises-by-area-variable>
- ⁵³ Llywodraeth Cymru, Busnes Cymru <https://businesswales.gov.wales/cy/ardrethi-annomestig-rhyddhad-ardrethi-manwerthu-hamdden-lletygarwch-yng-nghymru-2021-22>
- ⁵⁴ Data STEAM GTS (UK) Ltd, Tachwedd 2021 <https://www.globaltourismsolutions.co.uk/steam-model>
- ⁵⁵ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd <https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/>
- ⁵⁶ Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd <https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/y-fargen-ddinesig/>
- ⁵⁷ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, Cyflwr y Rhanbarth <https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2020/02/part-2-competitive-welsh.pdf>
- ⁵⁸ Fframwaith Buddsoddi Prifddinas-Ranbarth Caerdydd <https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2020/12/ccr-investment-prospectus-welsh-version-con-1-12.pdf>
- ⁵⁹ Prifddinas-Ranbarth Caerdydd <https://www.cardiffcapitalregion.wales/cy/news-events/latest-news/mae-cabinet-prifddinas-ranbarth-caerdydd-yn-cymeradwyo-cynigion-ar-gyfer-buddsoddiad-newydd/>
- ⁶⁰ Cynllun Diwydiannol ac Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
<https://www.cardiffcapitalregion.wales/wp-content/uploads/2019/02/ccr-industrial-and-economic-growth-plan-welsh.pdf>
- ⁶¹ Renewable and Low Carbon Energy Assessment Regional Summary. Yr Ymddiriedolaeth Garbon, Rhagfyr 2020
- ⁶² Renewable and Low Carbon Energy Assessment Regional Summary. Yr Ymddiriedolaeth Garbon, Rhagfyr 2020
- ⁶³ StatsCymru Patrymau cymudo yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Commuting/commutingpatterns-by-welshlocalauthority-measure>
- ⁶⁴ StatsCymru Patrymau cymudo manwl yng Nghymru yn ôl awdurdod lleol yng Nghymru
<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/People-and-Work/Employment/Commuting/detailedcommutingpatternsinswales-by-welshlocalauthority>
- ⁶⁵ Yr Adran Drafnidiaeth, Ystadegau Trafnidiaeth Prydain Fawr 2019
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/870647/tsgb-2019.pdf
- ⁶⁶ SYG, Dull arferol o deithio i'r gwaith, Hydref – Rhagfyr 2019
<https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/adhocs/11694usualmethodoftraveltoworkbyregiontraveltoworkareaoccupationandindustryukoctober2019>
- ⁶⁷ SYG: Oriau, buddion a chyfleoedd o ran gweithio gartref yn y DU: 2011 – 2020
<https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/labourproductivity/articles/homeworkinghoursrewardsandopportunitiesintheuk2011to2020/2021-04-19>
- ⁶⁸ Llywodraeth Cymru, Gweithio o bell <https://llyw.cymru/gweithio-o-bell>

-
- ⁶⁹ Llywodraeth Cymru, Strategaeth Drafndiaeth Newydd Cymru 2021
- ⁷⁰ Llywodraeth Cymru, Dyfodol Gwaith: effaith technoleg arloesol ar y gweithlu <https://llyw.cymru/dyfodol-gwaith-effaith-technoleg-arloesol-ar-y-gweithlu-html>
- ⁷¹ Arolwg Cenedlaethol Cymru <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-dangosydd-canlyniadau>
- ⁷² Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, Constituency Data: broadband coverage and speeds <https://commonslibrary.parliament.uk/constituency-data-broadband-coverage-and-speeds/#national>
- ⁷³ Llywodraeth Cymru, Strategaeth ddigidol i Gymru <https://llyw.cymru/strategaeth-ddigidol-i-gymru-html>
- ⁷⁴ Llywodraeth Cymru, 2021, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021, Pecyn Tystiolaeth, Cyrchwyd yma: <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/adroddiad-tueddiadau-dyfodol-cymru-2021-pecyn-tystiolaeth.pdf>
- ⁷⁵ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.
- ⁷⁶ UK Climate Change Risk Assessment 2017: Evidence Report. Summary for Wales.
- ⁷⁷ Cyflogaeth yn ôl math o ddiwydiant, 16-64 oed, 2019. Cofrestr o Fusnesau ac Arolwg Cyflogaeth Nomis.
- ⁷⁸ New Economics Foundation a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sgiliau drwy Argyfwng: Uwchsgilio ac (Ail)Hyfforddi ar gyfer Adferiad Gwyrdd yng Nghymru https://www.futuregenerations.wales/cy/resources_posts/sgiliau-drwy-argyfwng-uwchsgilio-ac-ailhyfforddi-ar-gyfer-adferiad-gwyrdd-yng-nghymru/
- ⁷⁹ Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau Partneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd 2019-22 <https://businesswales.gov.wales/skillsgateway/cy/datblygu-sgiliau/partneriaethau-sgiliau-rhanbarthol>
- ⁸⁰ SYG, Swyddi Gwag a Swyddi yn y DU: Gorffennaf 2021 <https://cy.ons.gov.uk/employmentandlabourmarket/peopleinwork/employmentandemployeetypes/bulletins/jobsandvacanciesintheuk/july2021>
- ⁸¹ Cyfoeth Naturiol Cymru, Adferiad Gwyrdd: Cefnogi'r Sector Amgylcheddol yng Nghymru 2020 <https://naturalresources.wales/about-us/strategies-and-plans/green-recovery-supporting-the-environmental-sector-in-wales/?lang=cy>
- ⁸² Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-02/ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi.pdf>
- ⁸³ Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, 'Caffael Llesiant yng Nghymru' <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/02/CYM-Section-20-Procurement-Review.pdf>
- ⁸⁴ Fframwaith Economaidd Rhanbarthol (drafft) De-ddwyrain Cymru https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/fframwaith-economaidd-rhanbarthol-ar-gyfer-de-ddwyrain-cymru_0.pdf
- ⁸⁵ Senedd Cymru, Ymchwil y Senedd, Adfer yr economi ar ôl "yr her economaidd fwyaf o fewn cof" (Mai 2021) <https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/adfer-yr-economi-ar-ol-yr-her-economaidd-fwyaf-o-fewn-cof/>
- ⁸⁶ Llywodraeth Cymru, Y berthynas newydd â'r UE: Beth mae'n ei olygu i Gymru <https://llyw.cymru/y-berthynas-newydd-ar-ue-beth-mae-n-ei-olygu-i-gymru>
- ⁸⁷ Llywodraeth Cymru, Datganiad i'r Wasg, 28 Medi 2021 <https://llyw.cymru/llywodraeth-y-du-yn-gadael-cymunedau-yn-y-tywyllwch-ac-yn-gwadu-buddsoddiad-hanfodol-i-gymru-wrth>
- ⁸⁸ Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, 'The Implications of Brexit for Agriculture, Rural Areas, and Land Use in Wales' <https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/The-Implications-of-Brexit-for-Agriculture-Rural-Areas-and-Land-Use-in-Wales-1.pdf>
- ⁸⁹ Llywodraeth y DU, UK Community Renewal Fund: successful bids <https://www.gov.uk/government/publications/uk-community-renewal-fund-successful-bids>
- ⁹⁰ Nation Cymru, Wales facing a return to 'austerity' unless lost EU funds are replaced (July 2021) <https://nation.cymru/news/wales-facing-a-return-to-austerity-unless-lost-eu-funds-are-replaced-economy-minister-warns/>

⁹¹ CLILC, Dangosfyrddau Cysylltiedig â Threfniadau Pontio'r UE <https://www.wlga.cymru/resources-eu-transition-exposure-dashboards>